



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion



Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau
ysgol am ddim

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng
Nghymru oherwydd cyflwyniad y Credyd Cynhwysol

Dyddiad cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2018

This report is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru oherwydd cyflwyniad Credyd Cynhwysol

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol a chyirff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, grwpiau ffydd, rhieni/gofalwyr a phartïon eraill sydd â buddiant yn y mater.
Trosolwg	Ceisiodd yr ymgynghoriad hwn safbwyntiau ar ddiwygio meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn benodol cymhwysedd sy'n seiliedig ar dderbyn y Credyd Cynhwysol.
Camau gweithredu sy'n angenrheidiol	Nid oes angen gweithredu – ar gyfer gwybodaeth yn unig.
Gwybodaeth bellach	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at: Y Gangen Lles Disgyblion Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: FreeSchoolMealsConsultation@gov.wales
	 @LIC_Addysg
	 Facebook/Addysg Cymru
Copïau ychwanegol	Gellir cael mynediad i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://beta.llyw.cymru/meini-prawf-cymhwystra-ar-gyfer-prydau-ysgol-am-ddim
Dogfennau cysylltiedig	Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru - Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim (2018)

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad	3
Cwestiwn 1	4
Cwestiwn 2	16
Cwestiwn 3 a Chwestiwn 6	22
Cwestiwn 4	37
Cwestiwn 5	39
Atodiad A – Cwestiynau'r ymgynghoriad	41

Cyflwyniad

Rhwng 6 Mehefin a 14 Medi 2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ei chynigion ar gyfer meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim yng Nghymru. Fel y mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar draws y DU, bydd yn cymryd lle rhai budd-daliadau a golygai bod teuluoedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Ers i Orchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 ddod i rym ar 6 Medi 2013, mae Credyd Cynhwysol wedi bod yn faen prawf cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, esboniwyd yn glir bod hwn yn fesur dros dro, a gynlluniwyd i sicrhau na fyddai teuluoedd a fyddai fel arall wedi bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol oherwydd y budd-daliadau etifeddol a gawsant o dan anfantais oherwydd cyflwyniad y Credyd Cynhwysol.

Yn ogystal â budd-daliadau di-waith, bydd y Credyd Cynhwysol hefyd yn disodli budd-daliadau mewn gwaith megis Credyd Treth Gwaith, na fyddai'n golygu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. O dan y Credyd Cynhwysol, nid oes gwahaniaeth rhwng budd-daliadau di-waith neu mewn gwaith. Mae hyn yn golygu, wrth ei gyflwyno, bydd mwy o deuluoedd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn yn 2023, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd tua hanner o'r holl ddisgyblion yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, o'u cymharu â 16% yn Ionawr 2018. Bydd hwn yn costio swm sylweddol o arian. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli effaith agenda diwygio lles Llywodraeth y DU ynghylch prydau ysgol am ddim.

Yn ei hymgyngghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno trothwy incwm a enillir yn Ionawr 2019. Bydd hyn yn golygu y bydd y cartrefi hynny sydd ag enillion net blynyddol a enillir o gyflogaeth neu hunangyflogaeth sy'n llai na £7,400 ac sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Gan fod hyn yn drothwy enillion, nid yw'n cynnwys incwm o Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau eraill.

Mae dadansoddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod mwy o blant yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn sgîl cyflwyno'r Credyd Cynhwysol oherwydd y polisi hwn na fyddai wedi bod yn gymwys o dan yr hen system etifeddol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod mesurau diogelu trawsnewidiol ar waith i ddiogelu teuluoedd rhag colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim am gyfnod cyfyngedig. Bydd y mesurau hyn yn golygu na fydd unrhyw blentyn yn colli'r hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyflwyniad y Credyd Cynhwysol, ac yna hyd at ddiwedd ei gyfnod yn yr ysgol.

Roedd yr ymgynghoriad, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau yn fanwl, ar gael ar-lein drwy ffurflen ymateb benodol, a derbyniwyd ymatebion trwy e-byst a llythyrau hefyd.


Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r dadansoddiad sy'n cael ei drafod yn yr adran hon ar gyfer y cwestiynau ymgynghori (1 i 6) yn seiliedig ar y 98 ymateb a gawsom i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd 65 ymateb trwy system ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd 32 ymateb ychwanegol trwy e-byst. O'r 32 ymateb a ddaeth trwy e-byst, ymatebodd 23 i gwestiynau'r ymgynghoriad fesul rhif a ni wnaeth y naw ymateb arall. Trafodir y data dadansodol o'r naw ymateb hyn o gwestiynau perthnasol yr ymgynghoriad.

Cyflwynodd un ymatebydd ddogfen ychwanegol er mwyn ategu ei ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn ymwneud ag ymchwil a gomisiynwyd ynghylch effaith ehangach diwygio budd-daliadau ar deuluoedd. Nid oedd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad gan nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad ond bydd yn cael ei ystyried pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymarfer ymgynghori yn cael ei ystyried.

Darparodd pob un o'r ymatebwyr a ddyfynnir yn yr adroddiad eu hymatebion yn Saesneg, ac maent bellach wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg.

Lle mae'n bosibl, mae'r 98 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi'u categorio yn ôl math fel a ganlyn:



Roedd bron hanner yr ymatebion yn ddiennw (46 o'r ymatebwyr). Roedd y nifer fwyaf o ymatebwyr a adnabyddir yn perthyn i'r trydydd sector (13), awdurdodau lleol neu ymgynghorau (12) a'r sector addysg (8).

Cwestiwn 1

Cwestiwn 1(a) – Rydym yn cynnig trothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn er mwyn pennu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan y Credyd Cynhwysol. Dylem ni gael trothwy enillion net. Ydych chi'n: Cytuno, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Ymateb	Nifer yr ymatebion
Cytuno	31
Anghytuno	43
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	10
Cyfanswm	84
Heb ei ateb	14

Roedd ychydig dros un o bob tri o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (31) yn cytuno y dylid cael trothwy enillion net ac roedd hanner yr ymatebwyr yn anghytuno (43). Roedd ychydig dros un o bob deg heb benderfynu. Ni wnaeth 14 o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

Cwestiwn 1(b) – Mae trothwy enillion net gwerth £7,400 y flwyddyn yn briodol. Ydych chi'n: Cytuno, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Ymateb	Nifer yr ymatebion
Cytuno	12
Anghytuno	56
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15
Cyfanswm	83
Heb ei ateb	15

Gwnaeth dau o bob tri ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (56) anghytuno bod y trothwy enillion net gwerth £7,400 yn briodol a gwnaeth un o bob saith gytuno (12). Roedd llai nag un o bob pump (15) heb benderfynu. Ni wnaeth 15 o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn yn uniongyrchol.

Cwestiwn 1(c) - A oes angen i ni ystyried unrhyw beth arall wrth bennu'r trothwy enillion net, nad yw wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghorol?

O'r nifer a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ni wnaeth 29 o'r ymatebwyr gynnig sylwad ar gyfer cwestiwn 1c. Er eu bod efallai wedi ymateb i o leiaf un o gwestiynau 1a neu 1b, ni wnaethant gynnig esboniad pellach am eu hatebion.

Roedd y rheini a wnaeth gytuno â'r trothwy naill ai yng nghwestiwn 1a neu 1b yn tueddu i leisio llai o'u safbwyntiau ar gyfer cwestiwn 1c.

Mae'r adrannau canlynol yn talu sylw i'r ymatebion i gwestiwn 1c yn ôl thema.

Camddealltwriaeth a'r angen am eglurhad pellach ynghylch y trothwy

P'un a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r trothwy arfaethedig ai peidio, roedd ychydig o gamddealltwriaeth ymysg y sylwadau a oedd yn ymwneud â'r trothwy arfaethedig neu'r oedd galwadau am fwy o dryloywder neu esboniad ynghylch y rhesymeg y tu ôl i benderfynu ar drothwy gwerth £7,400.

Roedd yn ymddangos fel petai nifer o'r ymatebwyr wedi cael yr argraff anghywir bod y trothwy enillion o £7,400 yn ymwneud ag incwm net y cartref yn hytrach nag enillion net.

"Pennir "Pensiwn y Wladwriaeth" ar tua £8,500.00. Mae'n hysbys iawn nad yw hyn yn ddigon i fwydo un unigolyn, heb sôn am blentyn sy'n tyfu / oedolyn ifanc"

Roedd eraill wedi drysu ynglŷn ag a yw'r trothwy yn cyfeirio at unigolyn neu'r cartref neu roeddent yn teimlo bod y disgrifiad yn amwys ac yn aneglur.

"Ydy'r trothwy enillion net ar gyfer y cartref, neu unigolyn?"

"Mae'r trothwy yn ymddangos yn rhy isel ac nid yw'n glir beth sy'n cyfrannu at 'gyfanswm' incwm y cartref"

Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth ac eglurder ynghylch rhai agweddau o'r argymhellion megis yr amserlenni ar gyfer gweithredu.

"Nid oes gennych ddatganiad ynghylch diwedd cyflwyniad y Credyd Cynhwysol, ydych chi'n sôn am ddiwedd cyflwyniad y rhaglen yn genedlaethol ar draws y DU (neu Gymru), neu a yw hyn yn ymwneud â diwedd cyflwyniad y Credyd Cynhwysol mewn ardaloedd Awdurdodau Lleol unigol"

Roedd hefyd galwadau am:

- Arddangosfa dryloyw o gostau
- Adnabyddiaeth glir o'r nifer o blant yr effeithir arnynt a'u nodweddion
- Tystiolaeth fod y goblygiadau ar gyfer y plant a'r teuluoedd yr effeithir arnynt gan y cynnig wedi'u dadansoddi a'u hystyried.

"Mae diffyg cyfeirio ac ystyriaeth ynghylch y darlun ehangach wrth bennu'r trothwy incwm ac mae hwn yn peri pryder"

Pryderon

Ni fydd nifer o blant sy'n byw mewn tlodi yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o hyd

Roedd pryder cyffredin ynghylch y trothwy yn canolbwyntio ar y rheswm sylfaenol am gael prydau ysgol am ddim – i helpu'r rhai sydd mewn angen. Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder fod yr hyn yr oeddent hwy'n tybio oedd trothwy isel yn golygu na fyddai miloedd o blant sy'n byw mewn tlodi yn cael mynediad at brydau ysgol am ddim. Awgrymodd ymatebwyr na fydd y cynigion yn gwneud unrhyw beth i fynd i'r

afael â neu wella'r sefyllfa bresennol lle mae plant yn byw mewn tlodi ar draws Cymru.

"Nid yw oddeutu 55,000 o blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Mae nifer o'r plant hyn yn newynog yn yr ysgol ac maent yn colli allan ar y manteision addysgol ac iechyd profedig a geir wrth dderbyn prydau ysgol am ddim. Byddai cyflwyno trothwy enillion net ar gyfer prydau ysgol am ddim yn golygu y byddai'r mwyafrif o'r plant hyn yn parhau i golli allan"

"Mae ein cyfrifiadau yn dangos bod oddeutu 55,000 o blant ysgol yng Nghymru yn byw mewn tlodi ond nid ydynt yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Mae'r plant hyn bron i gyd yn perthyn i deuluoedd sy'n gweithio ac yn ennill incwm isel. Bydd mwyafrif helaeth y plant hyn yn parhau i golli allan o ganlyniad i gynigion Llywodraeth Cymru, sydd yn amcangyfrif mai dim ond 3,000 yn fwy o blant fydd yn sicrhau cymhwysedd ar sail net"

"Dylid cwestiynu unrhyw gynnig sy'n methu a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb y trefniadau presennol. Mae'r canlyniad ar gyfer y plentyn sy'n newynu ac i'r rhiant nad yw'n gallu fforddio cost y prydau ysgol - yn aml ar gyfer nifer o blant - yn ddifrifol ac mae'n rhaid mai ein prif bryder fydd mynd i'r afael â hyn"

O fewn y thema hon, soniodd rhai ymatebwyr am yr effaith ar iechyd, gordewdra, maeth ac effeithiau hirdymor eraill diet gwael sy'n gysylltiedig â thlodi. Aeth rhai ymatebwyr ymhellach, gan gyfeirio at dystiolaeth sy'n ymwneud â heriau penodol y mae Cymru yn eu hwynebu yn nhermau gordewdra mewn plentynod a chyflyrau arall o'i gymharu â gweddill y DU. Ystyriwyd bod cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn fodd allweddol ar gyfer darparu o leiaf un pryd maethlon y diwrnod ar gyfer plant mewn teuluoedd ag incwm isel. Roedd cyfeiriad hefyd at gyfrifoldebau i ystyried effaith hirdymor y cynlluniau, gan gynnwys yr angen i ystyried polisïau ataliol, o ran gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

"Mae yna nifer uwch o bobl sydd mewn grwpiau incwm is sydd â chyflyrau sy'n ymwneud a diet megis diabetes, clefyd y galon, gordewdra a mathau penodol o ganser. Mae lefelau gordewdra plentynod yng Nghymru yn uwch na gwledydd eraill y DU gyda 27.1% o blant dros eu pwysau neu'n ordew. Mae'r bwlch rhwng lefelau gordewdra yn y cwintelau mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi cynyddu o 4.7% yn 2015-16 i 6.2% yn 2016-17. Mae 14.9% o'r plant sy'n byw yn y cwntil mwyaf difreintiedig yn ordew, ac mae hyn yn ystadegol uwch na chyffredinrwydd gordewdra yn unrhyw un o'r pedwar cwintel arall. Mae plant o grwpiau incwm is yn fwy tebygol o brofi diffyg twf gael iechyd y geg gwael. Gyda chyflwyniad Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (2013), mae prydau ysgol yn gyfle i blant gael pryd iach a maethlon sy'n fwy maethlon na phebyn bwyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond 1% o becynnau bwyd sy'n cwrdd â'r safonau maethlon cyffredinol sy'n berthnasol i fwyd ysgol"

"Bydd gosod y trothwy anghywir yn cael effaith ar lesiant plant a'u teuluoedd a bydd hyn yn cael effaith gynyddol ar gyrhaeddiad, presenoldeb, cymorth gan wasanaethau ar gyfer plant, llesiant addysg a'r sector iechyd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 'yn ei wneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau... i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd'."

"Ni all teuluoedd sy'n ennill yr isafswm cyflog fforddio talu am brydau ysgol... Nid darparu pecynnau bwyd yw'r dewis rhatach ac yn sicr nid hwn yw'r dewis iachach er gwaethaf ein rhaglen bwyta'n iach"

"Mae'r buddion cymdeithasol, addysgiadol ac iechyd ar gyfer plant sy'n cael o leiaf un pryd maethlon bob dydd wedi'u hymchwilio, eu dogfennu a'u cyflwyno'n llawn mewn mannau eraill. Gyda hyn mewn golwg rydym wedi ymgyrchu'n hir gyda'n partneriaid i gael prydau ysgol am ddim yn gyffredinol ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yng Nghymru. Er, am nawr, ac yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, mae ein pryderon yn canolbwyntio ar y plant hynny sydd fwyaf anghenus"

Effaith ar deuluoedd sy'n gweithio ag incwm isel

Soniodd nifer o ymatebwyr sôn nad yw'r trothwy enillion net yn ystyried teuluoedd sy'n gweithio ag incwm isel, yn enwedig y rheini y credir eu bod yn dioddef mwy yn ariannol na rhai sy'n derbyn budd-daliadau.

"Bydd meini prawf arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Credyd Cynhwysol yn golygu mai plant sydd mewn teuluoedd sy'n gweithio ag incwm isel fydd yn colli allan ar brydau ysgol am ddim. Mae'r data diweddaraf o StatsCymru yn dangos bod bron i ddau o bob tri plentyn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn perthyn i aelwyd sy'n gweithio. Ni fydd nifer o'r rhain yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan y meini prawf arfaethedig"

"Mae angen ystyried y teuluoedd sy'n gweithio yn ennill llai o arian na theuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau"

"Mae angen cymryd mewn i ystyriaeth y teuluoedd sy'n gweithio sydd hefyd yn ei chael hi'n anodd. Mae teuluoedd sy'n gweithio yn ymweld â banciau bwyd oherwydd cost gynyddol bywyd... nid y di-waith yn unig ddylai gael budd o brydau ysgol am ddim"

"Yn aml mae gan deuluoedd sy'n gweithio lai o incwm gwario na'r rhai hynny nad ydynt yn gweithio"

"Wrth gyflwyno trothwy enillion ar gyfer prydau ysgol am ddim, mae perygl y gallai teuluoedd sydd ag incwm isel llithro drwy'r rhwyd"

"Mae prydau bwyd yn anfforddiadwy ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio fel y mae pethau ar hyn o bryd. Trwy wneud hyn byddwch yn sicrhau bod mwy o rieni yn aros yn ddi-waith er mwyn iddynt fwydo eu plant"

Teuluoedd â phlant lluosog a phwysau ariannol arall

Thema gyffredin gafodd ei grybwyll gan ymatebwyr oedd y pwysau ariannol sy'n cynyddu gyda'r nifer o blant yn y cartref. Nododd rhai ymatebwyr nad oedd cael trothwy enillion hollgynhwysfawr yn ystyried y sefyllfa ar gyfer teuluoedd â phlant lluosog a chostau cynyddol bywyd a wynebier gan y rheini sydd â theuluoedd mwy o faint.

"Rydym yn talu tua £60.00 yr wythnos ar gyfer prydau ysgol ar hyn o bryd. Er ein bod uwchlaw'r trothwy, oherwydd cost magu pump o blant, nid ydym yn teimlo y

dylid gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd eu henillion gan fod ein alldaliadau ni yn uwch na'r rhai sydd gan y mwyafrif o deuluoedd"

"Nid yw'r sy'n mynd adref yn ystyried y teuluoedd sy'n fwy o faint a chost y costau sy'n gysylltiedig â'r ysgol"

"Er ein bod yn deall yr angen am drothwy, teimlwn y byddai'n system decach petai pobl sydd â mwy nag un plentyn yn gallu elwa ar drothwy sy'n uwch. Gellid dechrau'r trothwy yn is na £7400 ar gyfer un plentyn ac yna ei gynyddu £500 o bosibl er enghraifft, ar gyfer pob plentyn ychwanegol hyd at uchafswm"

"Bydd trothwy enillion nad yw'n ystyried maint teuluoedd yn cosbi plant o deuluoedd mwy o faint, a allai fod yn ddarostyngedig eisoes i'r cyfyngiad dau blentyn, gan nad oes system meinhaus ar waith"

Ymhelaethodd ymatebydd arall ymhellach, gan amlinellu'n benodol y gallai'r effaith bosibl ar deuluoedd mwy o faint cael effeithio'n benodol ar y rheini â chredoau crefyddol arbennig neu'r rheini o dras ethnig neu ddiwylliannol penodol.

"Rydym yn cydnabod bod newid i system sy'n ystyried lefel incwm aelwydydd net, yn hytrach na'r nifer o oriau a weithir, yn ddoeth. Fodd bynnag, nid yw'r ymagwedd arfaethedig yn ystyried maint y teulu. Golyga hyn y bydd teuluoedd mwy o faint yn cael eu cosbi. Mae grwpiau crefyddol, ethnig a diwylliannol penodol yn fwy tebygol o gael teuluoedd mwy o faint. Efallai na fydd plant mewn teuluoedd o'r fath yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim er gwaethaf y tlodi cymharol y maent yn byw ynddo. Byddai'r ymagwedd arfaethedig yn golygu bod teulu ag un plentyn sy'n ennill incwm net o £7,399 y flwyddyn yn gymwys ar gyfer derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, ni fyddai teulu â nifer o blant sy'n ennill £7,500 y flwyddyn yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Dangosodd Cyfrifiad 2011 bod 60% o blant Mwslimaidd a 52% o blant Iddewig yn byw mewn teuluoedd sydd â thri neu fwy o blant dibynnol. Y ffigur cymharol ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn grefyddol oedd 29%"

Gwnaeth eraill sylwadau nad oedd y cynigion yn ystyried pwysau ariannol arall, megis ad-daliadau dyled, byddai'n cael effaith ar lefel yr incwm gwario sydd ar gael ar gyfer teuluoedd â lefel incwm isel.

"Dylid ystyried dyledion a phwysau ariannol. Efallai bod incwm yn gywir ar bapur ond mae angen edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Mae gan nifer sylweddol o unigolion ddyledion sy'n llyncu eu hincwm ac os byddant yn wynebu Dyfarniad Llys Sirol byddant yn cael pethau'n anodd"

"Nid yw incwm net o reidrwydd yn dangos cyfoeth teulu"

Enillion amrywiol a pharhad

Pryder cyffredin a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd y potensial ar gyfer anghysondeb yn y modd yr asesir cymhwysedd ar sail enillion. Yn ôl ymatebwyr, mae nifer o ffyrdd y gallai enillion sy'n cael eu cyfartalu dros gyfnod o dri mis fod yn gamarweiniol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu talu'n fisol (y rheini sy'n derbyn cyflog wythnosol neu fesul pedair wythnos, er enghraifft) a'r rheini sydd ag enillion sy'n amrywio bob mis gan gynnwys gweithwyr tymhorol a'r rheini sy'n gweithio ar gontractau dim oriau.

"Rydym hefyd yn bryderus ynglŷn ag effaith y terfyn enillion arfaethedig ar deuluoedd ag enillion amrywiol, yn enwedig pan fydd yr enillion yn mynd yn uwch neu'n is na'r terfyn yn rheolaidd. Efallai y bydd y teuluoedd hynny yn cael trafferth wrth ddangos amser penodol pan fyddant yn gallu hawlio pryd ysgol am ddim, neu os byddant yn elwa neu'n colli allan wrth weithio oriau ychwanegol. O safbwynt yr ysgol, mae hyn hefyd yn ychwanegu cymhlethdod gweinyddol a logistaidd i'r gwaith. Bydd y materion hyn hefyd yn cael effaith ar weithwyr tymhorol. Gallai hyd yn oed teuluoedd sydd â phatrwm enillion rheolaidd gael eu heffeithio gan y cynigion, yn enwedig pan nad yw'r dyddiadau talu yn cyd-fynd â chyfnodau asesu misol y Credyd Cynhwysol yn drefnus. Ar gyfer yr hawlwr nad ydynt yn cael eu talu'n fisol, bydd cyfnodau pan ydynt yn derbyn mwy na'u henillion misol o fewn un cyfnod asesu'r Credyd Cynhwysol. Gallai hyn arwain at eu hasesu fel petaent yn anghymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim er bod eu henillion blynyddol yn is na'r terfyn £7,400"

"Nid yw'r ymgynghoriad yn amlinellu sut y bydd terfyn incwm yn cael ei gymhwyso, ar gyfer budd-dal sy'n cael ei dalu'n fisol mewn ôl-ddyledion lle bydd enillion a chymhwyster yn amrywio. Bydd hyn yn cael effaith ar nifer o deuluoedd sydd â chontractau dim oriau a'r rheini nad ydynt yn cael eu talu yn fisol yn ôl y calendr"

"Nid oes eglurder ynghylch a fydd yr enillion sy'n cael eu profi yn erbyn y trothwy yn ystyried y rheolau enillion amrywiol tybiedig ar gyfer dibenion y Credyd Cynhwysol, gan gynnwys yr isafswm incwm isaf un, enillion ychwanegol a cholledion hunangyflogedig sy'n cael eu cario ymlaen"

Nododd rhai ymatebwyr y gallai hyn arwain at rai teuluoedd sy'n gymwys un mis ac yn anghymwys y mis nesaf. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle nad yw rhieni yn gwybod os a phryd y gallant hawlio prydau ysgol am ddim – ac fe wnaeth rhai ymatebwyr argymhell y gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fyddai rhai rhieni yn hawlio, hyd yn oed pan fyddant yn gymwys. Gwnaeth ymatebwyr hefyd sylwadau ar yr anawsterau y gallai'r sefyllfa eu creu ar gyfer gweinyddwyr yn nhermau cymhlethdodau a'r effaith ar adnoddau.

"Bydd hyn yn creu problemau ymarferol difrifol i'r rheini sy'n gorfod ei weithredu gan wneud y polisi bron yn anymarferol ac yn rhy gostus i'w weinyddu, ni fydd hawlwr yn gwybod os a phryd y maent yn gymwys a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y niferoedd sy'n cymryd rhan"

"Pe byddai trothwy enillion yn cael ei gyflwyno, bydd sut a phryd y mae pobl yn cael eu hasesu yn hanfodol. Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei asesu ar sail 'byw' misol ac felly bydd cymhwysedd yn newid yn aml. Rydym yn gwybod bod gan Gymru gyfran uchel o weithwyr ag incwm isel ond hefyd pobl mewn gwaith achlysurol/tymhorol ag incwm anghyson. Efallai y bydd pobl sy'n cael eu cyflogi ar gontractau anhraddodiadol neu sy'n hunangyflogedig yn wynebu materion ariannol neu weinyddol ar y Credyd Cynhwysol. Efallai y bydd y rheini ag oriau ac enillion sy'n amrywio yn profi amrywiadau incwm mwy eithafol oherwydd y Credyd Cynhwysol, yn ddibynnol ar amseriad eu cyfnodau asesu misol. Efallai y bydd y rheini nad ydynt yn cael eu talu yn fisol yn ôl y calendr yn profi amrywiadau sylweddol yn eu budd-daliadau, ac efallai y bydd angen bod rhai yn adennill y Credyd Cynhwysol ar gyfer rhai misoedd. Mae rhai pobl hefyd yn cael eu talu ar sail pedair wythnos sy'n arwain at godiad incwm mewn un mis o'r flwyddyn. Felly, os yw'r enillion yn cael eu hasesu ar sail fwy rheolaidd, efallai y

bydd y rheini ag enillion sy'n amrywio yn canfod nad ydynt yn gymwys os bydd eu henillion yn uwch yn ystod yr asesiad blaenorol"

"Mae mater arall yn cynnwys y teuluoedd hynny sydd yn agos at ffiniau cymhwyster, y rheini sydd ag incwm anghyson, tymhorol neu achlysurol. Bydd cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfer plant o deuluoedd fel hyn naill ai yn amrywio, neu bydd teuluoedd yn dewis peidio hawlio yn y lle cyntaf gan na fydd yn glir iddynt pryd ac am ba hyd y bydd y plentyn yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim"

"Gydag unrhyw newid sy'n ymwneud â buddiannau a roddir, credwn ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ar gyfer plant a rhieni neu ofalwyr. Os bydd cymhwysedd plant i gael prydau ysgol am ddim yn newid yn gyson, gallai hyn effeithio ar eu llesiant ac effeithio hefyd ar allu teuluoedd ag incwm isel i gyllido'n effeithiol. Gallai hefyd beri dryswch i blant a'u teuluoedd a'u hatal rhag hawlio prydau ysgol am ddim yn ystod y misoedd maent yn gymwys"

Fe gwestiynodd rhai o'r ymatebwyr degwch y cyfnod pontio arfaethedig, gan ddatgan eu bod yn credu bod dyddiad cau penodol yn golygu y byddai teuluoedd yn derbyn cyfnodau gwahanol o amser i ymgyswrtu â'r newidiadau.

"Er bod cyfnod trosglwyddo ar gyfer y newidiadau arfaethedig wedi'i argymhell er mwyn helpu i ddiogelu'r rheini yr effeithir arnynt gan y cynigion, mae'r cyfnod trosglwyddo yn ddyddiad penodol – h.y. 2022, yn hytrach na chyfnod o amser. Bydd effaith hyn yn golygu bydd y sawl sy'n cael eu trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol erbyn diwedd y cyfnod trosglwyddo yn cael cyfnod byr iawn o amser, os o gwbl, i addasu i'r newid mewn cymhwysedd, tra bydd y sawl a drosglwyddodd yn 2019 yn cael eu diogelu am hyd at 3 blynedd"

Awgrymodd eraill y dylai unrhyw drothwy fod yn gysylltiedig â chwyddiant, fel nad yw'r rheini sy'n gymwys yn colli eu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim os bydd eu cyflog yn cynyddu yn unol â chwyddiant.

"Gan rewi'r trothwy enillion, mae ymchwil yn awgrymu, pe byddai'r trothwy yn gysylltiedig â chwyddiant, efallai y byddai hyd at 100,000 o blant ychwanegol yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ar draws y DU erbyn 2022"

"Mae angen ystyried chwyddiant"

"O ganlyniad i beidio â diweddarau'r trothwy yn unol â chwyddiant neu'r mynegai pris defnyddwyr (CPI), byddai llai o bobl newydd yn dod yn gymwys unwaith y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i sefydlu"

Tanseilio ethos y Credyd Cynhwysol

Wrth graidd Credyd Cynhwysol y mae'r nod o "sicrhau bod gwaith yn talu" sy'n annog teuluoedd i ymuno a'r farchnad lafur, gweithio mwy o oriau, a/neu ymgeisio am swyddi sy'n talu'n well. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai gosod trothwy statig yn tanseilio bwriad y polisi hwn gan greu senario ymyl y dibyn. Mae sylwadau yn awgrymu y gallai teuluoedd sy'n agosáu at y trothwy o £7,400 yn canfod y byddant yn elwa petaent yn osgoi cynyddu eu henillion.

"Mae'r cynigion hefyd yn creu 'ymyl y dibyn' difrifol sy'n tanseilio gallu'r Credyd Cynhwysol yn llwyr i 'sicrhau bod gwaith yn talu'. Gallai hyn osod nifer o deuluoedd mewn 'trap tlodi' lle byddai gweithio oriau ychwanegol yn golygu eu bod yn colli allan yn y pen draw unwaith y byddai gwerth y prydau ysgol am ddim yn cael eu hystyried. Er enghraifft, byddai'n rhaid i deulu â thri o blant sy'n ennill ychydig yn llai na'r terfyn o £7,400 arfaethedig gynyddu eu henillion blynyddol bron i £3,000 er mwyn talu am gollir prydau ysgol am ddim gan weithio mwy o oriau neu dderbyn codiad cyflog. Gallai oddeutu 22,000 o deuluoedd sy'n gweithio ag incwm isel yng Nghymru - sy'n cynnwys oddeutu 55,000 o blant - gael eu heffeithio'n negyddol gan y trap hwn ar ôl i'r Credyd Cynhwysol gael ei sefydlu'n llwyr"

"Un o nodau craidd Credyd Cynhwysol yw cynorthwyo teuluoedd i mewn i waith, gan sicrhau eu bod bob amser ar eu hennill am bob awr y maent yn gweithio. Ond mae cynnig Llywodraeth Cymru yn tanseilio'r amcan hwnnw. Yn wir, byddai nifer o deuluoedd yn derbyn llai o incwm yn y pen draw o ganlyniad i gymryd gwaith ychwanegol"

"Mae'r trothwy arfaethedig yn eithaf pendant a bydd yn gogwyddo tuag at deuluoedd sy'n gweithio mwy o oriau ar gyflogau fesul awr is ac oddi wrth deuluoedd lle mae'r rhieni yn gweithio am nifer fach o oriau ar gyflog uwch. Dylid ystyried gwneud y trothwy yn decach ar draws y grwpiau sydd mewn gwaith er mwyn sicrhau nad yw 'ymyl y dibyn' mor fawr"

"Bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar gymhellion gwaith a'r perygl yw y bydd yn creu trapiau tlodi ar gyfer hawlwy. Mae colli prydau ysgol am ddim ar gyfer un plentyn yn costio £450 y flwyddyn i deulu. Byddai ond yn rhaid i incwm hawliwr gynyddu gan £3 y mis (£36 yn flynyddol) a byddant yn waeth eu byd o £414 y flwyddyn. Gyda dau o blant byddai'r golled yn cynyddu i £828 y flwyddyn"

"Un amcan o'r Credyd Cynhwysol yw annog mwy o deuluoedd i gynyddu eu hincwm trwy weithio, ond os nad yw teuluoedd ag incwm isel yn gymwys bellach am eu bod yn ennill yn uwch na'r trothwy byddai hyn yn creu pwysau ariannol ychwanegol iddynt. Efallai y byddai cymhellion gwaith yn dioddef wrth i'r trothwy droi yn 'ymyl y dibyn' i deuluoedd. Efallai y byddai angen gweithio nifer o oriau ychwanegol er mwyn cael yr un incwm aelwyd a oedd yn cynnwys cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim, yn enwedig mewn aelwydydd gyda mwy nag un plentyn. Gallai hyn greu goblygiadau difrifol ar gyllid misol y teulu gan annog pobl i beidio â chynyddu eu henillion"

Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus ynghylch colli cefnogaeth ychwanegol - megis y Grant Datblygu Disgyblion (PDG), y gellir ei ddefnyddio i brynu gwisg ysgol, offer a nwyddau chwaraeon - petai teulu yn colli'i gymhwysedd i hawlio prydau ysgol am ddim. O bosib, gallai hyn annog hawlwy i beidio â gweithio mwy o oriau.

"Mae newid y system budd-daliadau yn creu potensial i annog pobl i beidio â chynyddu eu horiau a gwneud mwy o waith, yn enwedig os yw cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn gysylltiedig â buddiannau eraill, megis y Grant Datblygu Disgyblion"

"Byddai gennym bryderon sylweddol hefyd nad yw hyn yn ymwneud â phrydau ar gyfer dysgwyr yn unig, ond gallai arwain at oblygiadau enfawr yn nhermau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer ysgolion. Defnyddir y Grant Datblygu

Disgyblion ar gyfer targedu arian at y dysgwyr mwyaf difreintiedig. Golyga'r cynigion hyn y bydd dysgwyr dan anfantais ddwbl – a bydd hyn yn cael effaith ar eu gallu i dderbyn prydau ysgol am ddim, a hefyd ar gymorth ychwanegol mewn ysgolion trwy'r Grant Datblygu Disgyblion”

Pryderon eraill

Cododd yr ymatebwyr nifer o bryderon ychwanegol wrth ymateb i'r trothwy o £7,400 arfaethedig. Ni soniwyd am y rhain mor aml â'r themâu arall, ond roeddent yn cynnwys:

- Mae'r cynigion presennol yn anwybyddu plant sydd â statws mewnfudo heb ei ddatrys.
- Ystyrir bod y trothwy yn 'rhy isel', ac nad oes unrhyw esboniad pellach.
- Ni fydd y trothwy yn gweithio gydag ymagwedd 'un ateb sy'n addas i bawb' – mae'n fwy cymhleth.

Cadarnhaol

Yn dangos rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer y trothwy

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol o gyflwyno trothwy, ac roedd rhai yn cytuno – neu nid oeddynt yn anghytuno o leiaf – â'r ffigur enillion net o £7,400.

“Yn seiliedig ar gyfarwyddyd bod gan deulu nodweddiadol sy'n ennill oddeutu £7,400 y flwyddyn cyfanswm incwm aelwyd rhwng £18,000 a £24,000 y flwyddyn unwaith yr ystyrir budd-daliadau, mae'r £7,400 yn ymddangos yn rhesymol”

Codwyd mater cynaliadwyedd ariannol, pe byddai'r trothwy enillion net yn cael ei godi.

“Byddai angen bod unrhyw welliannau i'r trothwy enillion net arfaethedig o £7400 y flwyddyn yn destun ymgynghoriad oherwydd gallai'r effaith ariannol fod yn anghynaliadwy”

Mater arall a godwyd gan ymatebwyr yw'r effaith bosib ar staffio'r sector cyhoeddus ac adnoddau petai unrhyw newidiadau yn cael eu gweithredu.

“Bydd staffio ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol yn cael ei effeithio gyda'r posibilrwydd o fod angen mwy o adnoddau. Dylid gwneud cyfeiriad o leiaf at effaith rheoli a gweinyddu'r newidiadau”

Awgrymiadau a dewisiadau

'Cynyddu'r nifer o blant sy'n gymwys'

Dywedodd nifer o ymatebwyr bod angen bod mwy o blant - neu fod yr holl blant mewn rhai achosion - yn derbyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim fel modd o fynd i'r afael â thlodi mewn plentyndod ar draws Cymru.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr argymell y dylai'r holl blant o deuluoedd sydd yn derbyn y Credyd Cynhwysol fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, gan awgrymu bod y ffaith eu bod yn derbyn budd-daliadau yn barod yn golygu eu bod yn cael trafferthion ariannol.

"Credwn y dylai'r holl deuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim"

"...rydym yn argymell y dylai'r holl blant sydd yn aelodau o deuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol barhau i fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Byddai hyn yn costio oddeutu £35 miliwn y flwyddyn yn fwy na chynnig Llywodraeth Cymru, ond mae'n bris sydd yn werth ei dalu er mwyn blaenoriaethu diwallu goblygiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a goblygiadau eraill er mwyn sicrhau bod yr holl blant sydd mewn tlodi yn gallu derbyn o leiaf un pryd maethlon y dydd. Byddai modd ei roi ar waith heb gynyddu arian y Grant Datblygu Disgyblion o reidrwydd yn uwch na'r lefelau presennol"

"Cyflwynwyd prydau ysgol am ddim yn y DU yn 1947 er mwyn sicrhau bod plant o deuluoedd ag incwm isel, sy'n wynebu amddifadedd, yn gallu dibynnu ar gael pryd maethlon yn yr ysgol bob dydd. Credwn y dylai'r nod hwn fod wrth galon darpariaeth prydau ysgol am ddim yn yr 21 ganrif o hyd"

Gwnaeth eraill sylwadau y dylid ymestyn cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim i bob plentyn ar draws Cymru.

"Nid yw incwm net o reidrwydd yn dangos cyfoeth teulu. Dylai pob plentyn ysgol yng Nghymru fod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim"

"Dylai fod am ddim ar gyfer pob disgybl! Mae fy incwm net yn uwch na £7,400 ac rwy'n dal i gael trafferth"

"Ni all deuluoedd sy'n ennill yr isafswm cyflog fforddio talu am brydau ysgol. Mae angen i'r trothwy fod yn uwch neu'n well byth dylai pob plentyn cael ei fwydo a bod hynny'n cael ei ariannu drwy system dreth ar gyfer y rhai sy'n ennill y cyflogau uchaf. Ein plant yw dyfodol ein gwlad a byddem yn gwneud yn well petaent yn cael y dechrau gorau mewn bywyd waeth beth yw eu sefyllfa gymdeithasol. Brecwast a phrydau am ddim i bob plentyn"

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnig prydau ysgol am ddim i'r plant hynny nad yw eu rhieni yn gallu neu nad ydynt yn dewis darparu ar eu cyfer.

"Dylai plant gael eu bwydo os nad yw eu rhieni yn darparu bwyd ar eu cyfer neu os nad ydynt yn fodlon darparu bwyd ar eu cyfer, waeth beth y mae eu rhieni yn ei ennill"

'Dilynwch rannau eraill o'r DU'

Cwestiynodd rhai ymatebwyr pam nad oedd y cynlluniau arfaethedig mor hael â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU. Awgrymodd ymatebwyr yn aml y dylid naill ai dilyn arweiniad Gogledd Iwerddon o gael trothwy o £14,000 neu gynnig Lloegr i gynnwys pob plentyn yng Nghyfnod Allweddol 1 ar gyfer prydau ysgol am ddim.

"Mae Lloegr yn cynnig prydau ysgol am ddim ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 (disgyblion y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1) – cwestiynir pam nad yw hyn yn cael ei ailadrodd yma yng Nghymru. Pam y mae Cymru wedi colli'r cyfle i gael yr arian ychwanegol hwn?"

"Yn Lloegr a'r Alban, mae prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu i'r holl blant o fewn addysg y blynyddoedd cynnar a chydnabyddir bod pryd maethlon yn allweddol ar gyfer datblygiad yn ystod y blynyddoedd hyn"

"Gwelwn fod trefniadau mwy hael ar waith ym mhob un o'r gwledydd eraill, a bod trothwy incwm a enillir uwch (bron ddwywaith cymaint) wedi'i gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon. Yn yr Alban a Lloegr, mae trefniadau prydau ysgol am ddim cynhwysol ar waith eisoes ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol fabanod ac mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd a blaenoriaeth agenda'r blynyddoedd cynnar"

"Byddem yn pwysleisio bod y ffigur yng Ngogledd Iwerddon llawer yn uwch - a bod cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol yn cynnwys 'Credyd Treth Plant neu'r Credyd Treth Gwaith gydag incwm trethadwy blynyddol o £16,190 neu lai"

Fe wnaeth un ymatebydd argymhell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried model Gogledd Iwerddon fel enghraifft o sut y gellir targedu arian at y rhai mwyaf anghenus.

"Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn arweiniad Gogledd Iwerddon gan gyfuno'r holl awdurdodau addysg lleol i mewn i'w hadran addysg. Yna gallai Llywodraeth Cymru ariannu ysgolion yn uniongyrchol fel bod pob plentyn yn cael ei asesu yn ôl ei angen, gan gynnwys anabledd ac incwm teulu isel a byddai'r arian hwn yn mynd yn syth i'r ysgol ar gyfer y plentyn hwnnw"

Gwario ataliol

Wrth ddeall goblygiadau ariannol ehangu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, awgrymodd un ymatebydd awgrymu y dylid ystyried hyn fel gwario ataliol, fyddai'n arbed arian i Lywodraeth Cymru yn yr hirdymor.

"Dylid ystyried bod ariannu polisi sy'n mwyhau'r nifer o blant yng Nghymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn wario ataliol. Er ein bod yn deall y cyfyngiadau cyllidol cyffredinol a wynebwr gan Lywodraeth Cymru, credwn y gellid mesur y gost/budd o ddarparu mwy o brydau ysgol am ddim yn erbyn y gost/budd mewn meysydd gwariant eraill er mwyn asesu petai'n haeddu cael ei gyllido mewn egwyddor. Mae'r buddiannau ehangach a ddaw wrth ehangu mynediad at brydau ysgol am ddim yn adnabyddus gydag arbedion maint yn lleihau pris pob pryd, a gwelliannau mewn iechyd yn cynhyrchu arbedion ar gyfer y GIG, buddiannau addysgol yn cefnogi economi mwy ffyniannus yn ogystal â'r potensial i hybu'r economi wledig ac i gyflawni canlyniadau amgylcheddol ehangach megis gwelliannau ar gyfer rheoli tir a lleihad mewn defnydd ynni a chynhyrchiad gwastraff"

Cofrestru awtomatig ac Ever 6

Fel y trafodwyd yn gynharach, y mae rhai pryderon am nad yw rhieni a gofalwyr efallai'n sylweddoli eto a ydynt yn gymwys ai peidio. Gallai enillion amrywiol hefyd newid eu statws o un mis i'r nesaf. Gyda hyn mewn golwg, awgrymodd rhai y dylid defnyddio system gofrestru awtomatig a'r model 'ever 6' er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch a diffyg parhad. Mae'r model 'ever 6' wedi cael ei ddefnyddio yn Lloegr yn unol â'r Grant Premiwm Disgyblion. Yn Lloegr, mae disgyblion y gwyddys eu bod wedi derbyn prydau ysgol am ddim yn ystod unrhyw un o'r chwe blynedd flaenorol yn derbyn Grant Premiwm Disgyblion, sy'n cael ei ddyrannu i ysgolion ac awdurdodau lleol.

"...byddai system gofrestru awtomatig yn decach ac yn fwy cywir. Ni fyddai angen i deuluoedd gofio ymgeisio ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau bod eu plant yn derbyn y gefnogaeth ychwanegol yn eu hysgolion"

"Rydym hefyd yn credu y dylid defnyddio mesur Ever-6, sy'n dynodi a yw plentyn wedi derbyn/bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfnod addysgol hwnnw, ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod y teuluoedd hynny y mae eu cymhwysedd ar gyfer y ddau faen prawf yn amrywio'n barhaol, yn cadw cefnogaeth yr adnodd er mwyn lliniaru yn erbyn effaith tlodi ar ganlyniadau addysgol eu plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y mater ac mae wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater ond mae angen gwneud mwy"

Awgrymiadau eraill

Mae'r dewisiadau a gwelliannau amgen a awgrymwyd yn cynnwys:

- Cyfuniad o ddarpariaeth – er enghraifft , elfennau cynhwysol a darpariaeth ar sail cymhwysedd
- Terfyn enillion amrywiol sy'n cael ei addasu yn unol â sefyllfa'r aelwyd
- Cyflwyno opsiwn i ymuno â chynllun i dalu'n rhannol am brydau ysgol wrth i incwm gynyddu.

Cwestiwn 2

Cwestiwn 2 (a) - Dylai disgyblion sydd yn gymwys ar adeg y trothwy pan fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2019, a hawlwr newydd dan y trothwy sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod dechrau Credyd Cynhwysol, gael eu hawl i brydau ysgol am ddim wedi'i ddiogelu. Ydych chi yn:Cytuno, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Ymateb	Nifer yr ymatebion
Cytuno	58
Anghytuno	17
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	11
Cyfanswm	86
Heb ateb	12

Gwnaeth bron i ddau draean o'r ymatebwyr a wnaeth ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol (58) gytuno y dylai plant dan yr amgylchiadau hyn gael eu hawl i brydau ysgol am ddim wedi'u diogelu. Gwnaeth cyfran debyg nodi eu bod yn anghytuno (17) a ddim yn cytuno neu'n anghytuno (11) gyda'r cynnig hwn. Ni wnaeth 12 cyfranogwr ymateb yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn.

Cwestiwn 2(b) - Oes unrhyw beth arall y dylwn ei gymryd i ystyriaeth o ran diogelu teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y newid, nad ydyw wedi cael ei ymdrin gan y ddogfen ymgynghorol?

Derbyniwyd 42 o ymatebion i gwestiwn 2(b). Gwnaed 28 o sylwadau wrth y rheini oedd yn cytuno i gwestiwn 2(a), 6 sylw wrth y rhai a oedd yn anghytuno, a 6 wrth y rhai a nododd nad oeddent yn 'cytuno nac yn anghytuno'. Derbyniwyd dau sylw arall gan y rhai nad oeddent wedi ateb i gwestiwn 2(a). Gwelwyd themâu tebyg yn dod i'r amlwg drwy'r ymatebion hyn, sy'n cael eu hamlinellu a'u trafod isod. Gwnaed nifer fach o sylwadau ychwanegol nad oedd yn benodol o berthnasol i gwestiwn 2(b). Roedd y rhain yn ymwneud â'r diffyg ymddangosiadol o brydau ysgol am ddim, a'r polisi cefnogol, a rhai rhieni nad oeddent yn rhoi blaenoriaeth i faetheg eu plentyn.

Cynnal a chadw hawl i gael prydau ysgol am ddim

Yn unol â chwestiwn 1c, mynegwyd sawl barn ynghylch cynnal ac estyn hawl prydau ysgol am ddim. Gwnaeth sawl ymatebydd sylw y dylai prydau ysgol am ddim gael eu cadw ar gyfer y plant hynny sydd eu hangen fwyaf. Roedd y grwpiau penodol hyn o blant yn cynnwys y rhai a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol, a'r rheini roedd eu rhieni yn derbyn y Credyd Cynhwysol.

"Dylai'r plant sydd mewn gofal a phlant sy'n dod i dderbyn gofal, fod â hawl i gael prydau am ddim"

"Dylai pob plentyn sy'n derbyn Credyd Cynhwysol barhau i dderbyn prydau am ddim, gan wneud trefniadau trosiannol cymhleth yn ddi-angen"

Gwnaeth eraill nodi bod y newidiadau a gynlluniwyd yn ddiangen, a dylid cadw'r cymhwysedd presennol:

"O ystyried effaith o tynnu prydau ysgol am ddim yn ôl ar incwm y cartref a chynllunio strategol y dyfodol o fewn ysgolion, dylai cymhwysedd presennol gael ei ddiogelu"

Roedd rhai o'r farn y dylai prydau am ddim gael eu cynnig i bob plentyn. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl blant sydd angen prydau ysgol yn eu derbyn, gan helpu i sicrhau bod yr holl blant yn derbyn y dechrau gorau posibl mewn bywyd:

"Dylai'r holl blant fod â hawl i gael prydau am ddim, hwy yw dyfodol Cymru ac fe ddylent gael eu diogelu"

Cynlluniau diogelu trosiannol

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynlluniau trosiannol, gan nodi eu bod yn deg ac yn galluogi i effaith y polisi gael ei monitro'n effeithiol. Byddai'r cynlluniau trosiannol hefyd yn sicrhau nad yw'r plant sydd bellach â hawl i gael prydau ysgol dan y cynlluniau newydd dan anfantais, yn benodol o ystyried nifer y teuluoedd a fydd yn colli'r gymhwysedd o dan y cynlluniau newydd. Nododd un ymatebydd y dylid ymestyn y cyfnod pontio.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod hyd y cyfnod pontio yn ormodol. Gallai hyn fod o anfantais i rai addysgwyr a oedd ar ddiwedd eu cyfnod addysgol, o gymharu â'r rhai ar ddechrau eu cyfnod addysgol. Gallai ymestyn ar y cyfnod trosiannol hyd ddiwedd cyfnod addysgu'r dysgwyr arwain at deuluoedd mewn angen yn colli allan ar brydau am ddim a rhai yn eu derbyn nad oedd eu hangen ac yn sgil hyn byddai 'system dwy haen pan na fydd rhai teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yn cael mynediad at brydau am ddim tra bod eraill nad oes angen cymorth y prydau am ddim arnynt yn parhau i'w derbyn." Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr bod angen ymagwedd decach i adolygu cymhwysedd prydau am ddim, a hynny'n flynyddol.

Roedd sylwadau eraill a dderbyniwyd yn cynnwys:

"Gallai'r system ddiogelu arwain at anghydraddoldeb i deuluoedd sy'n ennill yr un faint gyda'r un math o amgylchiadau ond bydd hawl gan rai i gael prydau ysgol am ddim o dan y system bontio, ond ni fydd yr un hawl gan eraill os nad ydynt yn cael eu diogelu gan y system drosiannol."

"Gan ddefnyddio enghraifft Nia o'r ddogfen ymgynghoriad, nid ydym o'r farn bod angen darparu'r cyfnod hwn o ddiogelwchpe byddai gan riant y lefel honno o incwm. Dull tecach fyddai meddwl am ddiogelu'r prydau ysgol am ddim tan ddiwedd y flwyddyn ysgol honno. Byddai unrhyw ostyngiad dilynol yn sbarduno darpariaeth prydau ysgol am ddim unwaith eto beth bynnag"

Nododd ymatebydd arall dri chategori o ymatebwyr na ddylai dderbyn diogelwch trosiannol:

1. Teuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ac y mae eu hamgylchiadau yn newid wrth fynd â nhw tu allan i'r system budd-daliadau yn gyfan gwbl
2. Teuluoedd y mae eu henillion hwy y tu hwnt i'r trothwy yn ystod y cyfnod cyflwyno hwn, a
3. Teuluoedd sy'n hawli'r Credyd Cynhwysol yn ystod y cyfnod cyflwyno ac mae eu hincwm yn codi yn uwch na'r trothwy newydd yn ystod y cyfnod cyflwyno.

Incwm a enillwyd yn ystod y trothwy

Defnyddiodd ymatebwyr hefyd gwestiwn 2b i wneud sylwadau ar incwm y trothwy arfaethedig, ac aethpwyd i'r afael ag ef yng nghwestiwn 1. Cafwyd sawl barn wahanol ynghylch tegwch arfaethedig y trothwy.

I eraill, er nad oedd newid trothwy'r Credyd Cynhwysol yn annheg ynddo'i hunan, byddai'n anodd i deuluoedd dderbyn a rheoli'r newidiadau.

"Mae angen hysbysu teuluoedd na fyddant yn bodloni'r trothwy yn gynnar fel eu bod yn gallu gwneud cynlluniau. Fodd bynnag, mae'n annheg bod rhywun oedd yn bodloni'r meini prawf blaenorol yn cael eu diogelu yn erbyn y sawl na wnaeth, ond nad oedd yn ennill yr un faint â rhywun arall a fyddai'n elwa ar gael eu diogelu"

Byddai rhai ymatebwyr yn croesawu ennill trothwy incwm amrywiol er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd sydd â mwy nag un plentyn dan anfantais.

"Byddai teulu lle mae eu henillion ychydig yn uwch na'r trothwy ond sydd â mwy nag un plentyn yn y pen draw mewn safle ariannol gwaeth os nad ystyrir y ffactor hwn. Er enghraifft, os yw cost darparu pryd ysgol i un plentyn tua £2.50, yna byddai'n costio tua £475 y flwyddyn. Byddwn yn awgrymu wrth ddefnyddio'r math hwn o gyfrifiad y dylid addasu'r trothwy yn unol â nifer y plant sydd yn y teulu. Byddai hyn yn fwy teg ac yn helpu i sicrhau nad yw teuluoedd o'r fath yn cael eu cosbi"

Cydraddoldeb, anffafiaeth a stigma

Fel y nodwyd yn y dadansoddiad o'r ymatebion i gwestiwn 1c, roedd rhai ymatebwyr a ymatebodd i gwestiwn 2b yn gweld bod cofrestru i gael prydau ysgol am ddim yn ffordd i liniaru yn erbyn stigma posibl o gael prydau ysgol am ddim wrth sicrhau bod pob disgybl ysgol cymwys yn cael eu hawl i brydau ysgol am ddim, a thrwy hynny, lleihau baich gweinyddol awdurdodau lleol.

"...dyma gyfle i Lywodraeth Cymru sicrhau cymhwyster ar gyfer y disgyblion hynny, gan osgoi biwrocratiaeth di-angen. Dylai prydau ysgol am ddim fod yn fudd a roddir; ni ddylent fod yn rhywbeth mae'r rhieni wedi gwneud 'cais' i'w gael. Mae'r prydau ysgol yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc, ond byddaisystem o'r fath yn sicrhau bod yr holl bobl sydd â hawl i wneud hynny, yn elwa, yn ogystal â galluogi ysgolion i fod yn dyst i her wirioneddol a achosir gan amddifadiad."

Tanseilio gwir ethos y Credyd Uniongyrchol

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i gwestiwn 1c, roedd teimlad ymhlith rhai ymatebwyr bod y newidiadau arfaethedig i gymhwysedd prydau ysgol am ddim yn tanseilio ethos y Credyd Cynhwysol. Roedd y rheini a oedd o'r farn hon wedi mynegi eu pryderon y gallai'r cynlluniau gael yr effaith gyferbyniol, gan gosbi teuluoedd am weithio mwy o oriau a/neu gael cynnydd yn eu cyflog. Roedd y sylwadau a wnaed ynghylch hyn yn cynnwys:

"Mae dadansoddiad gan y Gymdeithas Plant hefyd yn dangos unwaith y bydd teulu ag un plentyn yn cynyddu i drothwy £7,400 a osodir gan feini prawf y Credyd Cynhwysol, byddai angen iddynt ennill £1,124 fesul blwyddyn, sy'n gyfystyr â 2.4 awr ychwanegol bob wythnos ar y cyflog byw cenedlaethol, er mwyn gwneud iawn am y golled o'r prydau ysgol am ddim. Mewn gwirionedd,

mae hyn yn creu ymyl y dibyn' ble byddai nifer o deuluoedd yn elwa mwy ar gymryd gostyngiad yn eu cyflog"

".....mae yna risg y gallai polisi Llywodraeth Cymru ddatgymell rhieni rhag cael mynediad at y farchnad llafur neu gynyddu eu horiau gwaith. O ystyried y cysylltiadau clir rhwng gwaith a thlodi, fel y nodir yn 4(iii) rydym o'r farn bod cyflwyno unrhyw derfyn a fyddai'n datgymell rhag gwaith, yn ddatblygiad negyddol"

Effeithiau ehangach

Rhestrodd yr ymatebwyr ystod o effeithiau ehangach y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried o ran diogelu teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau sy'n nesáu, a gwella mynediad at fwyd mwy iachus, mwy fforddiadwy. Y rhain oedd:

- Fel y nodwyd yn ymateb i gwestiwn 1c, effeithiau negyddol ar iechyd plant a'u lles trwy golli hawl i brydau ysgol am ddim, defnyddio 'newyn gwyliau' fel esiampl i ddangos yr effaith o dderbyn prydau ysgol am ddim i deuluoedd sydd ag incwm isel. Gallai hyn gael ei gyfuno gyda chynnydd mewn costau byw a chostau bwyd
- Ochr yn ochr â'r newidiadau mwy eang a ysgogwyd gan ddiwygiadau i fudd-daliadau, mae'r pwysau ariannol ychwanegol y rhagwelir y bydd y newidiadau i feini prawf prydau cinio am ddim yn ei roi ar deuluoedd, yn enwedig teuluoedd unig riant, a'r rheini ag oedolyn neu blentyn anabl. Codwyd y mater hwn hefyd gan y rhai a ymatebodd i gwestiwn 1c.
- Ceisio cefnogi economi wledig Cymru drwy "gynnig marchnad ragweladwy, warantedig i ffermwyr Cymru a chynhyrchwyr lleol eraill" drwy ymestyn cymhwysedd prydau ysgol am ddim.

Perthynas â pholisïau a ffrydiau ariannu eraill

Y Grant Datblygu Disgyblion oedd y ffrwd ariannu a nodwyd amlaf gan ymatebwyr mewn perthynas â'r newidiadau i feini prawf cymhwyster prydau ysgol am ddim. Nododd rhai y byddai'r Grant Datblygu Disgyblion yn cydweddu'r newidiadau drwy roi cymorth ychwanegol i gefnogi myfyrwyr sydd ei angen yn ystod y cyfnod pontio.

Gan adlewyrchu rhai o'r ymatebion i gwestiwn 1c, pwysleisiodd rhai hefyd o dan gwestiwn 2a y dylai cymhwysedd y Grant Datblygu Disgyblion hefyd dderbyn diogelwch yn unol â chymhwysedd prydau ysgol am ddim er mwyn lleihau'r baich ar deuluoedd. Un sylw a wnaethpwyd ynghylch hyn oedd:

"Dylai unrhyw ddiogelwch fod yn berthnasol hefyd i'r Grant Datblygu Disgyblion yn ogystal â'r prydau ysgol am ddim oherwydd dylai ysgolion yn ogystal â theuluoedd gael amser i gynllunio'r newidiadau i'w cyllid yn hytrach na wynebu ymyl y dibyn"

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid uno ffrydiau ariannu eraill er mwyn gwneud y gorau o'r effeithlonrwydd:

"Dylai prydau ysgol am ddim ac arian ar gyfer ariannu anghenion addysgol eraill gael eu cyfuno a'u hail enwi yn Breimiwm Plant Ysgol"

Baich gweinyddol posibl

Nodwyd pryder ynghylch y baich gweinyddol a ragwelwyd, y byddai'r newidiadau newydd yn ei roi ar awdurdodau lleol, yn enwedig mewn perthynas â gwirio cymhwyster parhaus ar ôl i'r cyfnod diogelu pontio ddod i ben.

O ganlyniad i hyn, tynnwyd sylw at y cynnydd mewn costau gweinyddol ar gyfer llywodraeth ganolog a llywodraeth leol fel rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried wrth roi'r cynlluniau newydd ar waith. Byddai'r costau hyn yn codi yn unol â nifer y categorïau sy'n derbyn diogelwch pontio a hyd y cyfnod pontio. Nodwyd hefyd efallai y byddai'r awdurdodau lleol angen diweddarau eu meddalwedd er mwyn gweinyddu'r newidiadau, gan arwain at gostau ychwanegol.

"Oherwydd nad oed cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i reoli effaith cynnydd yn y nifer o brydau ysgol am ddim, gallai hyn gael effaith ar gyllidebau eraill o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn ariannu'r gost ychwanegol hon"

Mae'r angen i gyflwyno canllaw clir i awdurdodau lleol drwy gydol y cyfnod o'i roi ar waith hefyd wedi derbyn sylw fel prif ystyriaeth i Lywodraeth Cymru, oherwydd y posibilrwydd y gallai'r cynllun ychwanegu cymhlethdodau i'r broses o weinyddu prydau ysgol am ddim.

Byddai canllawiau penodol yn cael eu croesawu o ran sut y byddai awdurdodau lleol yn rheoli ceisiadau prydau ysgol am ddim, yn benodol gan deuluoedd agored i niwed, pan fod cais am brydau ysgol am ddim yn ystod cyfnod asesu cychwynol y Credyd Cynhwysol sef cyfnod diofyn o 5 wythnos.

Nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyriedamserlen weinyddol hefyd. Pe bai unrhyw oedi wrth roi'r Credyd Cynhwysol ar waith, dylai unrhyw newidiadau ynghylch cymhwysedd prydau ysgol am ddim gael eu hoedi hefyd yn unol â hyn er mwyn sicrhau y bydd uchafswm posibl o blant yn elwa ar ddiogelwch pontio.

Yn unol â'r ymatebion a dderbyniwyd i gwestiwn 1c, oherwydd y newidiadau yn y ffordd o weinyddu prydau ysgol am ddim yn ôl y cynlluniau newydd, roedd pryderon ynghylch y ffaith na fyddai teuluoedd yn ymwybodol ei bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gallai hyn arwain at rai plant yn colli allan, fel y nodwyd yn y sylw canlynol:

"Trwy weinyddu ceisiadau am fudd-dal tai, yn hanesyddol mae Awdurdodau Lleol wedi cael y cyfle i adnabod a chyfeirio teuluoedd sy'n gymwys i hawlio eu prydau ysgol am ddim. Ni fydd hyn yn digwydd bellach ac mae posibilrwydd na fydd rhai, gan gynnwys teuluoedd agored i niwed, yn ymwybodol bod ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Byddai unrhyw botensial i wella'r broses ffurfiol rhwng Yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol yn cael ei groesawu"

Meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai'r newidiadau newydd yn ei gwneud yn fwy anodd cofnodi effeithlonrwydd polisiâu sydd wedi'u hanelu at wella tlodi a chanlyniadau addysgol, fel y nodwyd yn y sylw canlynol:

“Byddem hefyd yn pryderu am wybodaeth gyfaradwy a ddaw yn sgil y newidiadau. Sut bydd Llywodraeth Cymru yn gwybod ei bod yn cyflenwi cyfleoedd gwell i blant a phobl ifanc sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim os yw'r prydau ysgol am ddim wedi newid cymaint?”

Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

Awgrymodd ymatebwyr nifer o ddulliau y gallai'r newidiadau arfaethedig i gymhwysedd prydau ysgol am ddim gael eu gwella. Gan adleisio rhai o'r ymatebion i gwestiwn 1c, roedd un yn ymwneud â chyflwyno mesur 'ever6' y mae llywodraeth y DU wedi'i roi ar waith. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn atal teuluoedd sy'n gweithio ond yn byw mewn tlodi rhag bod o dan anfantais gan y cynlluniau newydd os byddant yn cynyddu eu horiau neu'n derbyn cynnydd yn eu cyflog. Gwnaethant hefyd nodi y byddai'r model 6 yn galluogi ysgolion i gynllunio a chadw cofnod o ymyriadau penodol yn fwy effeithiol, a thargeddu cyllid yn fwy cywir.

Cwestiwn 3 a Chwestiwn 6

Roedd cwestiwn 3 a chwestiwn 6 yn gwestiynau cyffredinol a oedd yn gofyn i ymatebwyr restru pwyntiau ychwanegol i Lywodraeth Cymru eu hystyried mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Roedd y pynciau a nodwyd wrth ymateb i'r ddau gwestiwn yn debyg iawn i'w gilydd. Am y rheswm hwn, mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn wedi'u cyfuno ac yn cael eu trafod isod.

Cwestiwn 3 - Ydych chi'n credu bod unrhyw beth arall sydd angen i ni ystyried, nad yw wedi'i drafod yn y ddogfen ymgynghorol?

Cwestiwn 6 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Gwnaed 41 sylw mewn ymateb i gwestiwn 3 a 34 o sylwadau ar gyfer cwestiwn 6. Ar gyfer y ddau gwestiwn, roedd tuedd gan ymatebwyr ailddweud yr hyn a ddywedwyd mewn ymateb i 1c a 2b er mwyn pwyslais. O ganlyniad, mae'r themâu yn debyg, neu mewn rhai achosion yr un fath â'r rheini a nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 1c a 2b.

Cynnal ac ehangu hawl i gael prydau ysgol am ddim

Fel yng nghwestiwn 1c a 2b, roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylai prydau ysgol am ddim gael eu cynnig i bob disgybl. Nododd rhai y dylid ymestyn hawl i gael prydau ysgol am ddim i bawb sydd eu hangen.

"Darparu prydau ysgol cyffredinol i bob plentyn, neu ddarparu prydau ysgol am ddim i deuluoedd sy'n derbyn budd-daliadau"

"Mae prydau ysgol am ddim yn allweddol o ran gwaith ataliol, ac fe ddylai gael ei ddiogelu"

Eto, fel y nodwyd mewn ymatebion cynharach, gwnaeth eraill nodi y dylid ehangu prydau ysgol am ddim i bawb sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn sicrhau bod mwy o blant mewn angen yn derbyn prydau am ddim, byddai'n symleiddio'r cynllun arfaethedig, ac yn cael effaith gadarnhaol o costau goblygiadau.

"Nid yw Cymru yn darparu prydau ysgol am ddim i bawb - byddai cymhwysedd Credyd Cynhwysol yn ddull llawer mwy graddol a chyfiawn i sicrhau bod y plant sydd mewn angen ym mhob oedran yn gallu cael mynediad at y ddarpariaeth. Byddai'n cefnogi mwyafrif y teuluoedd sy'n cael trafferthion (yn y gwaith a thu allan) ac yn lliniaru rhywfaint ar effaith bosibl Brexit ar brisiau bwyd. Byddai'n symleiddio'r system budd-daliadau ac yn atal datgymell pobl rhag gwneud gwaith ychwanegol yn sgil bod 'ar ymyl y dibyn"

Fe wnaeth rhai gydnabod, er bod prydau ysgol am ddim i bawb yn "ddelfryd", mae'n annhebygol y byddai'n fforddiadwy.

"Mewn byd delfrydol, byddai prydau ysgol am ddim ar gael i bawb. Dyma'r unig ffordd i sicrhau bod yr holl blant yn cael un pryd bwyd maethlon y dydd.... Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw ateb o'r fath yn radical fod yn fforddiadwy yn ystod y cam hwn, heb ostyngiadau i gyllidebau mewn meysydd eraill na chyllideb

ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod bod rhoi meini prawf sy'n seiliedig ar incwm yn fodd effeithiol o dargedu'r cartrefi hynny sydd angen cymorth ariannol fwyaf"

Awgrymodd eraill y dylid cyflwyno prydau bwyd am ddim i blant y babanod fel ffordd fwy fforddiadwy o sicrhau bod plant yn cael budd o gael pryd o fwyd maethlon bob dydd.

"Yn y byr dymor, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol sy'n iau na blwyddyn 2, fel sy'n digwydd yn Lloegr a'r Alban. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn sicrhau nad yw unrhyw blentyn yng Nghymru dan anfantais o gymharu â phlant yn Lloegr a'r Alban"

Cynlluniau diogelu pontio

Fe siaradodd nifer o ymatebwyr o blaid newid y cynlluniau diogelu pontio. Fel y nodwyd o dan gwestiwn 2b, roedd rhai wedi nodi y dylai'r cynllun diogelu pontio gael ei adolygu yn flynyddol er mwyn sicrhau bod pawb sydd ei angen yn ei dderbyn, yn hytrach na pharhau gyda chymhwysedd i'r sawl y mae eu sefyllfa cyflogaeth wedi gwella. Roedd eraill yn awgrymu estyn y cyfnod pontio hyd at ddiwedd cyfnod gorfodol i fynychu'r ysgol, a hynny os nad yw incwm y rhieni yn uwch na'r trothwy.

"Rydym hefyd o'r farn na ddylai unrhyw blentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gael eu tynnu oddi arnynt cyn iddynt adael yr ysgol, oni bai bod incwm eu rhieni y tu hwnt i'r trothwy"

Trothwy yr incwm a enillwyd

Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi lleihau trothwy'r incwm. Wrth gymharu atebion i gwestiynau 1c a 2b, roedd rhywfaint o gefnogaeth i drothwy incwm amrywiol. Dylai hyn gael ei adolygu ar sail barhaus yn unol ag incwm rhieni yn codi a gostwng i atal ymatebwyr y presennol rhag bod dan anfantais.

"Mae cyfartaledd enillion dros amser yn newid ac mae cadw'r trothwy sef £7400 y flwyddyn drwy'r cyfnod cyflwyno....sydd bellach wedi'i adolygu i o leiaf mis Mawrth 2023 gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n amser hir heb uwchraddio na'i adolygu"

"Bydd yn bwysig parhau i adolygu'r lefel lle gosodir mynediad at brydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi cymaint o ddisgyblion dan anfantais â phosibl, a hefyd i sicrhau nad oes anfanteision yn y tymor hir i'r disgyblion hynny sy'n derbyn prydau ysgol am ddim dan y trefniadau presennol (Gorffennaf 2018)"

Gan ychwanegu at yr ymatebion a roddwyd yng nghwestiynau 1c a 2b, fe wnaeth eraill alw ar Lywodraeth Cymru i egluro sut byddai'r trothwy yn berthnasol i'r rhai ag incwm sy'n amrywio.

"Mae'n siomedig nad oes unrhyw fanylion ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi trothwy blynyddol ar waith i unigolyn sy'n cael y Credyd Cynhwysol ac sydd â chyflog sy'n amrywio y naill ochr i'r llall i drothwy misol o bosibl....P'un a yw hwn yn cael ei ddatrys mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau ar gyfer Lloegr, lle

mae enillion cyfartalog o hyd at dri mis yn cael eu hystyried, mae'r cymhlethdod gweinyddol yn glir."

Fel yng nghwestiwn 1c, fe wnaeth rhai argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried amgylchiadau unigryw Cymru wrth bennu trothwy'r wlad yn hytrach na mabwysiadu'r un trothwy â Lloegr.

"Er ein bod yn deall pryder Llywodraeth Cymru ynghylch y pwysau ychwanegol ar gyllidebau, mae'n siom mai man cychwyn yr ymgynghoriad yw cynnig un trothwy â Lloegr ar y sail byddai gwneud unrhyw beth arall yn 'rhy ddrud'. Fel y soniodd Lord Tebbit yn Nhŷ'r Cyffredin ar y mater, ynghylch y gwahaniaeth rhwng trothwy £14,000 yng Ngogledd Iwerddon a throthwy £7,400 yn Lloegr: "Nid yw'n amlwg a fyddai pwynt i lywodraeth ddatganoledig oni bai y gallai'r Llywodraethau datganoledig allu cyflwyno safbwyntiau polisi gwahanol?"

Cydraddoldeb, anffafiaeth a stigma

Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i fonitro'r newidiadau arfaethedig ar y cyd â chydraddoldeb mewn deddfwriaeth.

"Mae [Ymatebydd] yn croesawu cynnwys asesiad drafft o'r effaith ar gydraddoldeb drafft. Fodd bynnag, mae'r [ymatebydd] yn atgoffa Llywodraeth Cymru bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd) hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r [ymatebydd] wedi pwyso ar awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl faterion cydraddoldeb a gwmpaswyd gan y Ddyletswydd yn cael eu cynnal mewn ffordd gredadwy a chadarn...felly mae'r [ymatebydd] yn mynnu, yn ogystal ag unrhyw fonitro parhaus o effaith y cynigion, bydd Llywodraeth Cymru yn adnabod ac yn gweithredu mesurau i i sicrhau cydymffurfiaeth lwyd awdurdodau lleol ac ysgolion â'r Ddyletswydd"

Roedd rhywfaint o ymdeimlad bod y term 'prydau ysgol am ddim' yn creu stigma ac anfantais i blant a phobl ifanc. Gwnaeth ymatebwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer lleihau'r stigma sy'n gysylltiedig â derbyn prydau ysgol am ddim. Roedd defnyddio dull cofrestru a systemau heb arian yn allweddol i hyn, fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiynau yn flaenorol.

"Efallai y gallai prydau ysgol am ddim gael eu dosbarthu fel talebau fel y bod plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn derbyn bocs bwyd fel pawb arall"

"Er mwyn sicrhau bod y gyfran uchaf bosibl o'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn eu hawlio, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn cynnig ymrwymiad i system gofrestru awtomatig...mae'n bosibl mai un ateb mwy arloesol fyddai i bob plentyn dalu am ei bryd ysgol gan ddefnyddio cerdyn, y byddai'r Wladwriaeth yn ei lwytho â chredyd ymlaen llaw yn awtomatig. Byddai hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o leihau'r problemau ynghylch y stigma (oherwydd byddai pob plentyn yn talu yn yr un ffordd) yn ogystal â chyflwyno'r cyfle am fudd graddol (a thrwy hynny liniaru effaith ymyl y dibyn)"

"Dylid ystyried ffyrdd o alluogi pob teulu cymwys a'u plant i gofrestru yn awtomatig. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth am ei fod yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi plant"

Nododd un ymatebydd y byddai cofrestriad awtomatig yn ei gwneud yn ofynnol i wahanol adrannau awdurdodau lleol rannu data. Byddai angen i rai awdurdodau lleol newid eu proses rhannu data er mwyn galluogi hyn.

Byddai ehangu cymhwyster prydau ysgol am ddim yn lleihau'r stigma, fel y mae'r sylwadau isod yn nodi.

"Efallai y dylid ei wneud yn ofynnol i'r holl ddisgyblion gael pryd bwyd yn yr ysgol felly nad yw'n amlwg pwy sy'n eu cael am ddim a phwy sy'n talu amdanynt"

"Dylech ystyried rhoi prydau ysgol am ddim i'r holl blant. Bydd hyn yn sicrhau'r hyn a allai fod yn brif bryd bwyd y dydd i bob plentyn. Bydd hefyd yn cael gwared ar y stigma y gallai rhai plant ei wynebu o fod yn cael prydau ysgol am ddim"

"Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru, fel un o'i hamcanion polisi tymor canolig, ystyried cyflwyno prydau ysgol am ddim i bawb yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai unrhyw blentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi, yn cael eu hatal rhag cael prydau ysgol am ddim, ac yn cael gwared hefyd ar y stigma sy'n cwmpasu'r budd"

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 1c, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus y byddai'r cynlluniau yn creu anfantais i deuluoedd mwy o faint. Byddai hyn yn creu gwahaniaethu anuniongyrchol ymhlith rhai teuluoedd ethnig a chefnidir crefyddol sy'n dueddol o fod â theuluoedd mwy o faint. O ganlyniad, anogwyd Llywodraeth Cymru i adolygu effaith bosibl y cynllun ar nifer yr aelodau mewn teuluoedd.

"Wrth i deuluoedd newid, nid yw'n anarferol i gartrefi gael cyfuniad o lysblant o berthnasoedd blaenorol, sydd wedi cael eu cyfuno gan gyplau newydd yn byw gyda'i gilydd. Hefyd, nid yw'n anarferol i rai teuluoedd ethnig lleiafrifol gael teuluoedd mwy o faint felly o ganlyniad mae'n bosib eu bod yn cael eu heffeithio yn anuniongyrchol gan y mathau hyn o ddarpariaeth ac yn fwy na hynny, os oes newid i nifer yr oedolion yn y tŷ yn sgil magu un neu ddau grŵp o blant yn sgil marwolaeth neu dor-perthynas. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad lle bo'n bosibl, i effaith y cynigion hyn, mewn cysylltiad â maint teuluoedd"

"...bydd y cynnig hwn yn effeithio ar blant â nodweddion gwarchoddedig penodol, sydd eisoes mewn mwy o berygl o brofi tlodi. Bydd y cynnig hwn yn golygu bod llai o blant yn derbyn prydau ysgol am ddim na phe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn parhau (pob un sy'n hawlio Credyd Cynhwysol); Mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig/ teithwyr ac aelodau o gefndiroedd crefyddol yn fwy tebygol o fod â theuluoedd mwy o faint ac felly mae'n debygol bod y polisi hwn yn effeithio arnynt yn anghymesur am nad oes cysylltiad â maint y teulu"

*"Bydd methu ag ystyried maint y teulu mewn asesiadau prydau ysgol am ddim yn cael effaith fwy ar blant mewn grwpiau crefyddol ac ethnig penodol, nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010...
Ni wnaeth yr asesiad ar effaith cydraddoldeb a gynhyrchwyd gan Y Gyfarwyddiaeth Addysg, gyfeirio at faint y teulu. Mae crefydd a hil yn nodweddion gwarchoddedig. Mae angen ystyried maint y teulu mewn asesiadau prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau nad yw grwpiau sydd â nodweddion wedi'u gwarchod yn cael effaith niweidiol arnynt"*

Unwaith eto, gan ategu atebion i gwestiwn 1c, mynegwyd pryderon ychwanegol ynghylch cyfnod yr amserlen gyflwyno i deuluoedd dan anfantais mewn awdurdodau a ddaeth i'r amlwg yn hwyrach.

"...byddai cyflwyno Credyd Cynhwysol yn raddol yn golygu y byddai'n cael effaith ar wahanol gartrefi ar wahanol adegau, yn dibynnu ar eu lleoliad daearyddol a'r math o fudd-daliadau yr oedd aelodau'r teulu sy'n oedolion â hawl i'w cael. Fel y mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, gallai'r nodwedd hon o roi Credyd Cynhwysol ar waith greu diffyg parhad arwyddocaol i'r lefelau o anfantaisa gofnodir, o fewn yn ogystal â rhwng ysgolion unigol"

Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â ffrydiau ariannu eraill:

"O ystyried bod y nifer o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael effaith ar y Grant Cynnal Refeniw a dyraniad Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Addysg, rydym yn bryderus bod yr Awdurdodau sydd ar ddiwedd cyfnod y cyflwyniad dan anfantais ac mae rhaid cynnwys system yn y fformiwla ariannu er mwyn sicrhau bod pob Cyngor yn cael eu trin yr un fath"

"Dechreuodd yr amserlen i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2017, ac fe fydd yr Awdurdodau Lleol sy'n weddill ar fin dechrau'r cyflwyniad ym mis Rhagfyr 2018. Yr effaith a gaiff hyn (yn sgil meini prawf diogelu) yw y bydd gan Awdurdodau Lleol sydd yn ei gyflwyno yn gynharach nifer uwch o unigolion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (mwy na'r cyffredin) ac fe allai hyn gamliwio dosbarthiad y cyllid i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru - yn benodol y Grant Cynnal Refeniw a'r Grant Gwella Addysg i ariannu disgyblion dan anfantais - ydy hynny'n deg?"

Effeithiau ehangach

Roedd yr ymatebwyr yn rhagweld y gallai'r cynlluniau gael amrywiaeth o effeithiau ehangach. Roedd nifer o'r rhain yn debyg i'r rhai hynny a nodwyd eisoes o ran cwestiynau 1c a 2b, gan gynnwys y canlynol:

- **Cynnydd mewn newyn plant/tlodi bwyd:** Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai mwy o blant yn newynog yn sgil colli eu cymhwysedd i brydau ysgol am ddim, a phwysleisiwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn yn ei chyfrifon:

"Mae angen i chi roi mwy o ystyriaeth i'r plant. Mae'r rhieni [yn mynd i fod] mewn sefyllfa waeth o dan y Credyd Cynhwysol a byddant yn cael trafferth dal dau ben llinyn ynghyd. Bydd plant yn newynog, efallai mai hwn yw unig bryd bwyd poeth y diwrnod"

"Mae cymaint o blant yn mynd heb fwyd bob dydd, bydd y cynnig hwn yn cynyddu'r ffigur hwn ac yn gwthio mwy o blant i mewn i dlodi bwyd. Dylid cynnig prydau ysgol am ddim i fwy o blant, nid eu cyfyngu ymhellach"

"...byddem wedi hoffi gweld cefndir a oedd yn gwneud oddeutu 3,000 yn fwy o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fyddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno'n llawn. Roedd y dogfennau ymgynghori ar gyfer Lloegr yn honni y byddai 50,000 yn fwy o ddisgyblion yn gymwys, ond dengys dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn glir mai ffigur net yw hwn, a thu ôl i hyn, ni fyddai 160,000 o'r plant sy'n gymwys o dan y system gyfredol yn gymwys bellach. Pe byddem yn allosod hyn i'r amcangyfrif ar gyfer Cymru, awgrymir y gallai bron i 10,000 o ddisgyblion yng Nghymru ddod yn anghymwys o dan y diwygiadau. Deallwn fod hyn"

yn ychwanegol at y nifer fras o 55,000 disgybl sydd wedi'u nodi fel plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru sydd eisoes yn anghymwys i gael prydau ysgol am ddim"

"Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei barn bod ei chynnig yn bodloni'r rhwymedigaethau hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y ddadl y bydd 3,000 yn fwy o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim nag sydd ar hyn o bryd o ganlyniad i hyn. Nid yw hyn yn ystyried y ffaith fod y polisi'n cynrychioli toriad mewn cymhwysedd o'i gymharu â'r trefniadau presennol, lle y mae'r holl blant mewn teuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o ystyriaeth i ffyrdd y gall pob plentyn yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi fanteisio ar brydau ysgol am ddim"

- **Cynnydd mewn gordewdra a maethiad gwael**, sy'n cael ei gysylltu'n aml â 'newyn gwyliau':

"Mae llawer o dystiolaeth fod gwyliau ysgol a newyn gwyliau yn cael effaith ddifrifol; mae hyn yn debygol o ymestyn i adegau tymor os na fydd cymorth ar gael pan fydd angen"

"Ehangu cymhwysedd prydau ysgol am ddim a chynyddu nifer y plant sy'n eu cael yw un o'r ffyrdd fwyaf effeithiol o effeithio ar ddeiet"

- **Tangyflawni addysgol yn cael ei gysylltu fwyfwy â newyn**

"Mae prydau ysgol am ddim yn galluogi plant i gael pryd bwyd iach a maethlon amser cinio. I lawer o blant, gallai'r pryd hwn, ynghyd â'u brecwast am ddim fod yr unig brydau bwyd y mae'r plant hyn yn eu cael. Mae'r prydau bwyd hyn yn ymwneud â mwy na buddion ariannol ac iechyd. Maent hefyd yn cyfrannu at well canolbwyntio a chyfranogiad mewn gwerau"

- **Buddsoddi yn y dyfodol:** Effaith (ehangu) prydau ysgol am ddim ar ganlyniadau iechyd, addysg ac economaidd hirdymor. Fel yr amlinellwyd yng nghwestiwn 1c a 2b, roedd rhai yn credu bod prydau ysgol am ddim yn wariant ataliol, a oedd yn helpu i leihau effaith gordewdra a maethiad gwael ar gyllidebau iechyd yn y dyfodol:

"Nid yw rhieni sy'n gweithio bob amser yn ystyried anghenion eu plant neu weithiau nid oes ganddyn nhw'r amser i wneud hynny, felly mae prydau ysgol yn hanfodol os ydym am iddyn nhw gymryd yr awenau oddi wrthym"

"Dylai cyllido polisi sy'n gwneud cymaint o blant â phosibl yng Nghymru'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gael ei ystyried fel gwariant ataliol...rydym ni'n credu y gallai'r gost/buddion o ddarparu mwy o brydau ysgol am ddim fod wedi'u pwysu a mesur yn erbyn cost/buddion meysydd gwariant eraill...Mae'r buddion ehangach o ehangu'r mynediad i brydau ysgol am ddim yn dra-hysbys, gydag arbedion maint yn lleihau pris pob pryd bwyd, y gwelliannau mewn iechyd plant yn arbed arian i'r GIG, y buddion addysgol yn cefnogi economi mwy ffyniannus, yn ogystal â'r posibilrwydd o hybu'r economi wledig a chyflawni canlyniadau amgylcheddol ehangach megis gwelliannau o ran rheoli tir a gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir"

- **Mwy o bwysau ariannol ar deuluoedd:** Gyda'r cynnydd mewn treth a'r diwygiadau ehangach i fudd-daliadau, rhagwelwyd y byddai'r cynlluniau yn

rhoi mwy o straen ar deuluoedd. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai colli cymhwysedd i brydau ysgol am ddim arwain at golli'r cymorth ychwanegol hwnnw y mae llawer o deuluoedd yn dibynnu arno. Gallai hyn eu gwthio'n ddyfnach i mewn i ddyled a gallai hefyd effeithio ar ysgolion ac awdurdodau lleol:

"Mae prydau ysgol am ddim yn rhoi mynediad at gymorth arall yn aml, fel help gyda dillad ysgol, teithiau neu wersi cerddoriaeth, neu fynediad rhatach i gyfleusterau hamdden. Golyga hyn y gallai'r hawl i brydau ysgol am ddim fod yn werth llawer mwy i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd na gwerth uniongyrchol y pryd bwyd ei hun"

"Mae'r buddion o sicrhau bod pob plentyn ysgol yn gallu cael pryd mwyd maethlon bob dydd yn ystod amser tymor yn ddealladwy iawn ac ni ddadleuir hyn. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg yn y ddogfen ymgynghori fod dealltwriaeth o'r canlyniadau i blentyn nad yw'n gallu cael pryd bwyd o'r fath, neu i deulu sy'n methu ffordio talu"

"Bydd lleihau nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu nifer y plant sydd 'ar ymyl y dibyn'. O ganlyniad, bydd nifer y teuluoedd sydd mewn dyled gyda'r prydau ysgol yn cynyddu...mae llawer o'r plant hyn yn mynychu'r ysgol heb unrhyw drefniadau wedi'u gwneud ar gyfer eu cinio...Mae hyn yn rhoi'r ysgol mewn sefyllfa anodd, ac yn aml, bydd yn rhaid i'r Pennaeth benderfynu a ddylid caniatáu i'r plentyn gael cinio ysgol am resymau llesiant. Mae hyn wedyn yn creu dyled i'r teulu.... Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gronni dyledion sylweddol, sy'n aml yn cael eu dileu. Mae cost yn wynebu pob darparwr pryd ysgol am y dyledion hyn, a bydd angen ystyried hyn os bydd nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn lleihau".

- **Defnyddio bwyd lleol er mwyn cefnogi cyflenwyr:** Nododd nifer o ymatebwyr y gallai, ac y dylai'r cynlluniau gefnogi cyflenwyr bwyd lleol, ond nododd rhai y gellid ond cyflawni'r effeithiau hyn drwy ehangu'r mynediad at brydau ysgol am ddim:

"A fyddai modd edrych ar fenter ehangach o ran trechu tlodi bwyd, ymglymu cynhyrchwyr lleol a dwyn i gyfrif yr archfarchnadoedd mwy o faint sy'n taflu symiau anferthol o fwyd ffres? Mae banciau bwyd yn dibynnu ar roddion o duniau a bwydydd nad ydynt yn darfod, ond onid oes yna fenter ehangach i'r genedl sy'n cynnwys prydau bwyd a dyfir yn lleol a'u paratoi'n ffres, yn hytrach na phocedi o blant ac aelwydydd sy'n newynu am fod y gadwyn fwyd mor gamweithredol. Gallai hyn gysylltu â'r polisi amaethyddol ehangach pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae cymaint o gyfoeth o adnoddau naturiol yng Nghymru, byddai'n fuddiol i'r rhai hynny mewn tlodi, y rhai hynny sy'n dilyn deiet afiach ar hyn o bryd ac yn wir i'r blaned, edrych ar y broblem fwyd trwy ddarn ehangach o waith sy'n mynd y tu hwnt i arbed symiau bach o arian trwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer prydau ysgol am ddim i'r rhai hynny islaw'r trothwy incwm penodol"

"Mae'r buddion ehangach o ehangu'r mynediad i brydau ysgol am ddim yn cynnwys y potensial i hybu'r economi wledig ac i gyflawni canlyniadau amgylcheddol ehangach, fel gwelliannau o ran rheoli tir a gostwng yr ynni a ddefnyddir a'r gwastraff a gynhyrchir"

- **Effaith ar bresenoldeb, ymddygiad a chyrrhaeddiad**

"Rhaid hefyd cydnabod y gallai cael prydu ysgol am ddim fod yr unig gyfle i rai plant dderbyn pryd bwyd poeth, a gallai fod yn gymhelliant i fynychu'r ysgol. Gallai cael gwared ar y fenter hon effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd cynnydd yn yr hawl a bod angen cynllunio ar gyfer y gost ychwanegol hon gan hynny"

Tanseilio ethos y Credyd Cynhwysol

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i gwestiynau 1c a 2b, roedd yna deimlad ymhlith rhai ymatebwyr i gwestiynau 3 a 6 y gallai'r cynlluniau danseilio ethos y Credyd Cynhwysol, drwy ddatgymell rhieni i ddechrau gweithio neu ennill mwy o arian trwy gael swydd well neu weithio mwy o oriau. Gwnaeth rhai ymatebwyr gysylltu hyn yn glir â'r trothwy incwm a enillir, gan awgrymu y gallai codi'r trothwy hwn atal y problemau hyn rhag codi.

"Gall cyfyngu'r cymorth i'r rhai hynny sy'n dioddef tlodi... greu datgymhelliad gwrthnysig i ennill incwm ychwanegol, a 'thrap tlodi' i'r rhai hynny sy'n gwneud hynny ac yn colli eu budd-daliadau"

"Y prif bryder yw'r trothwy o 7.4 mil a'r potensial am effaith ymyl y dibyn, lle y byddai unrhyw beth dros y swm hwnnw'n arwain at golli hawl - gallai ymddwyn fel rhwystr i rieni fynd i weithio/cynyddu eu horiau gwaith"

"Gan ystyried natur ymyl y dibyn y trothwy, bydd yn anochel y bydd unigolion a fydd yn dewis gwrthod awr ychwanegol o waith, neu hyd yn oed godiad cyflog bychan, am eu bod yn ofn colli'r prydu ysgol am ddim i'w holl blant. Mae anghysondeb sylfaenol rhwng hyn a dyluniad polisi sylfaenol y Credyd Cynhwysol, sy'n pwysleisio y dylai gwaith bob amser dalu. Mae'n creu trap i'r rhai hynny yn y sefyllfa hon, ac yn cael effaith gynyddol ar y plant a'u cyflogwyr neu fusnesau".

"...Dylai Llywodraeth Cymru ystyried codi swm net yr incwm a enillir i isafswm incwm safonol sy'n berthnasol i faint y teulu; neu ystyried system gynyddu raddol fel na fydd teuluoedd mewn sefyllfa waeth drwy weithio mwy o oriau a/neu gael cynnydd bychan i'w cyflog "

Yn yr un modd, nododd rhai ymatebwyr y dylai'r cynlluniau ffafrio aelwydydd sy'n gweithio uwchlaw aelwydydd nad ydynt yn gweithio, fel y'u bwriadwyd. Un sylw a wnaethpwyd ynghylch hyn oedd:

"...helpu pobl sy'n gweithio ac nid y rhai hynny nad ydynt yn helpu eu hunain ac yn cael popeth ar blât"

"yn aml, mae rhieni sy'n gweithio'n ei chael hi'n anoddach na rhieni nad ydynt yn gweithio, sy'n ennill arian mewn llaw"

Perthynas â pholisïau a ffrydiau ariannu eraill

Fel y gwelwyd o dan gwestiwn 2b, gwnaeth nifer o ymatebwyr hefyd ddefnyddio cwestiwn 3 i drafod y Grant Datblygu Disgyblion. Nododd ymatebwyr y byddent yn croesawu cyngor ar alinio'r newidiadau i gymhwysedd prydu ysgol am ddim â'r Grant Datblygu Disgyblion.

"Nodwn fod y dull ariannu ar gyfer dyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion yn ystod 2018-19 a 2019-20 yn seiliedig ar ddyraniad dwy flynedd. Byddem yn croesawu unrhyw eglurhad ar y dulliau arfaethedig wrth fynd ymlaen a'r cyfle i roi ein mewnbwn cyn i unrhyw ddulliau gael eu cadarnhau"

Gwnaeth eraill bwysleisio'r angen i sicrhau bod arian y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf ar ôl rhoi'r cynlluniau arfaethedig ar waith, gan argymhell y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei fonitro er mwyn nodi'r effaith y bydd y cynlluniau'n ei chael:

"Bydd yn bwysig monitro effaith unrhyw gynnydd neu ostyngiad ar arian y Grant Datblygu Disgyblion mewn ysgolion i weld a oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol. Efallai y byddai'n werth edrych ar hyn ar draws gwahanol fandiau prydau ysgol am ddim er mwyn nodi patrymau neu weld a yw'r effaith yn fwy amlwg mewn rhai nag eraill"

"Er nad y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yw prif bwyslais yr ymgynghoriad hwn, byddem yn poeni pe bai rhaglenni o'r fath yn cael eu tanseilio o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i feini prawf cymhwysedd y prydau ysgol am ddim...rydym yn poeni'n benodol am effaith unrhyw newidiadau i'r cymhwysedd ar y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar. Rydym ni'n credu y dylai pob plentyn sy'n byw mewn tlodi fod yn gymwys ar gyfer y grant, ac nid yw'r meini prawf cyfredol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cyflawni hyn. Dylid ystyried hyn ar wahân i'r cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. Rydym yn parhau i boeni nad yw plant a ddylai gael eu cefnogi gan y Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn derbyn y cymorth hwnnw ar hyn o bryd"

"Fel y gwnaethom ddweud yn ein cyflwyniad, mae prydau ysgol am ddim yn cael effaith anferth ar ysgolion gan eu bod yn gysylltiedig â'r cymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Felly, bydd plant a fydd yn colli allan o dan y system newydd drwy beidio â chael pryd bwyd am ddim dan ddwbl yr anfantais o dan y system arfaethedig, a gallai'n wirioneddol droi'r fantol o ran y gyllideb i rai ysgolion"

Nododd nifer o ymatebwyr y gallai newidiadau i nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim effeithio ar faint o gyllid fydd yn cael ei ddyrannu i ysgolion. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethant bwysleisio'r angen i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg, yn unol â'r angen.

Hoffai [yr ymatebydd] atgoffa Llywodraeth Cymru fod diffyg cyllid eisoes mewn ysgolion ledled Cymru o'i gymharu ag ysgolion a gynhelir yn Lloegr, a oedd yn wahaniaeth o oddeutu £306 miliwn yn 2015-16. Gan ystyried y cefndir hwn, cred [yr ymatebydd] y bydd angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i amddiffyn ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol rhag unrhyw ostyngiadau yn eu dyraniad o gyllid a allai godi yn sgil cyflwyno'r meini prawf cymhwysedd diwygiedig ar gyfer prydau ysgol am ddim"

Gwnaeth ymatebydd arall amlygu'r angen i gysylltu'r polisi ar brydau ysgol am ddim â pholisïau eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau iechyd a lles gorau posibl i ddisgyblion difreintiedig:

"Mae angen ymdrin â'r polisi bwyd yng Nghymru mewn modd strategol, ac mae prydau ysgol am ddim yn rhan o hwn. Gwnaeth yr adroddiad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn gynharach y flwyddyn hon, Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru, ddod i'r casgliad bod angen gweledigaeth strategol fawr ar gyfer sector bwyd Cymru, sy'n gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, fel iechyd, llesiant a chynaliadwyedd, ochr yn ochr â thwf economaidd"

Yn ôl ymatebwyr eraill, dylid cyfuno'r ffrydiau ariannu sy'n cefnogi dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig er mwyn arbed arian a thargedu'r cymorth yn fwy cywir. Mae hyn yn adlewyrchu pwynt tebyg a nodwyd o dan gwestiwn 2b.

"Mae'n hanfodol fod prydau ysgol am ddim yn cael enw newydd. Er enghraifft, gellid ei alw'n "Premiwm Disgybl". Gallai buddion eraill, fel gwisg ysgol am ddim, fod yn rhan o "Bremiwm Disgybl" unigryw pob plentyn unigol. Gellid arbed symiau anferthol o arian drwy uno awdurdodau addysg lleol ac adran addysg Llywodraeth Cymru ac anfon cyllid yr ysgol, gan gynnwys yr arian am brydau ysgol am ddim, yn syth i'r ysgolion"

"Mae gan Gymru gyfle enfawr i edrych ar bolisi ehangach ar gyfer prydau ysgol am ddim, a allai gynnwys clybiau brechwast/cinio/swper a darpariaethau yn ystod y gwyliau (a chostau eraill o'r diwrnod ysgol o bosibl, fel gwisgoedd ysgol)...Rhoi mwy o gyllid i ysgolion drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, a allai gael ei glustnodi mewn rhyw fodd ar gyfer darpariaethau gwyliau / clybiau brechwast / clybiau swper – gan greu ffordd fwy integredig a chynaliadwy o ymdrin â bwyd ysgol"

Mynegodd ymatebwyr hefyd y dylid ailedrych ar newidiadau polisi eraill sydd wedi effeithio'n niweidiol ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig:

"Grantiau gwisg ysgol ar gyfer ysgolion cynradd neu gael gwared ar wisg ysgol mewn ysgolion cynradd"

Problemau gweinyddol

O dan gwestiwn 2b, lleisiodd ymatebwyr eu pryderon ynghylch y ffaith y byddai'r cynlluniau ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cynyddu'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Gwnaethant ymhelaethu ar yr ymatebion hyn yng nghwestiwn 3, gan bwysleisio y dylai'r prosesau ar gyfer gwirio ac olrhain cymhwysedd teuluoedd i gael prydau ysgol am ddim fod yn syml. Roedd rhai yn poeni y gallai'r prosesau ar gyfer gwirio'r cymhwysedd i gael pryd ysgol am ddim achosi baich gweinyddol i awdurdodau lleol.

"Nid yw'r System Gwirio Cymhwysedd yn gweithio'n dda iawn ers cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Beth yw'r cynigion ar gyfer gwirio'r cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim wrth fynd ymlaen? Heb system ddibynadwy i bennu cymhwysedd, bydd awdurdodau lleol yn cael anhawster gweinyddu gwiriadau â llaw, a bydd hyn yn gwneud y broses yn ddrud ac yn lletchwith, a bydd yn gwastraffu llawer o amser."

Gan hefyd adleisio ymatebion i gwestiwn 2b, argymhellodd yr ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn eu

galluogi i ddeall y problemau gweinyddol sy'n debygol o godi wrth roi unrhyw newidiadau ar waith.

"Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag ymarferwyr o fewn awdurdodau lleol ar broblemau gweinyddol posibl sy'n ymwneud ag unrhyw gynigion, gyda'r nod o wneud y gwaith o roi unrhyw feini prawf newydd ar waith a'u gweithredu o ddydd i ddydd yn broses effeithlon ac effeithiol"

O dan gwestiynau 3 a 6, lleisiodd ymatebwyr bryderon ynghylch oediadau gweinyddol yn achosi caledi ariannol i deuluoedd:

"Gallai oediad wrth brosesu hawliadau Credyd Cynhwysol arwain teuluoedd i brofi caledi, yn enwedig os bydd yn parhau am fwy na phedair wythnos. Mae angen rhoi proses ar waith i sicrhau nad oes unrhyw oedi o ran sicrhau bod disgyblion cymwys yn derbyn prydau ysgol am ddim"

"Mae'r cyfnod pontio rhwng credydau treth gwaith a chredydau cynhwysol yn rhy hir. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o deuluoedd yn cael eu trin yn llai ffafriol, oni bai bod y cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei weithredu i bawb. Mae llawer o deuluoedd sy'n symud yn ôl ac ymlaen ar y gofrestr ar yr hyn o bryd, a byddai gweithrediad mwy amserol yn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu trin yn deg"

Dyweddodd rhai y byddai newidiadau gweinyddol y cynlluniau yn anodd i deuluoedd ymdopi â nhw, a gallai hyd yn oed arwain at deuluoedd nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn gymwys. Yn ôl y rhain, byddai hyn yn arwain at fwy o blant newynog yn y pen draw. Yn unol â hyn, amlygodd ymatebwyr yr angen i gyfathrebu'n glir ac i gefnogi teuluoedd a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau

"Telir y Credyd Cynhwysol bob mis; nid yw rhai rhieni'n gallu cadw trefn briodol ar yr arian. Felly erbyn wythnos 2-4, er enghraifft, nid oes arian ar ôl i'w lanlwytho i gyfrif prydau bwyd. Beth mae'r plentyn yn ei wneud wedyn? Er bod yr hysbysebion yn dweud bod cymorth ar gael, nid dyma'r achos. Bydd hyn yn creu mwy o blant newynog yn ein hysgolion. Alli di ddim cael hwn!"

"Nid yw llawer o rieni'n gallu rheoli eu harian ar y gorau. Ni fyddant yn rhoi mwy o arian yn y cyfrif prydau bwyd i bara'r mis pan fydd bil annisgwyl yn cyrraedd. Hon yw'r system fudd-daliadau waethaf i gael ei rhoi ar waith ers amser maith. Sut mae gennym blant newynog yn y wlad hon? Sut mae hyn yn bosibl!"

"Gall annog teuluoedd i hawlio prydau ysgol am ddim fod yn anodd, a pho fwyaf cymhleth yw'r cynllun, y lleiaf tebygol y bydd pobl eisiau eu hawlio. Trwy orgymhlethu'r mesurau diogelu, rydym yn poeni y gallai ddatgymell teuluoedd sydd wirioneddol angen help rhag hawlio".

"Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys manylion ar sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu cyfathrebu na pha gymorth a chynghor fyddai'n cael ei gynni i helpu'r teuluoedd hynny a fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig i gyflwyno trothwy enillion. Bydd yn rhaid i unrhyw newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim gael eu cyfathrebu'n eang i rieni a gofawyr, fel y gallant wneud penderfyniadau, cynllunio a chlustnodi arian yn unol â hynny. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyn gynted â phosibl. Dylai cyfeiriadau at arweiniad ariannol a chymorth

clustnodi arian gyda sicrwydd ansawdd gael eu cynnwys mewn unrhyw gyfathrebiadau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru"

"Gwell cyhoeddusrwydd a thargedu gan awdurdodau lleol a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd yn colli'r cyfle i gael yr help hwn"

Gan ychwanegu at yr ymatebion a roddwyd yng nghwestiynau 1c a 2b, amlygodd ymatebwyr yr angen am dryloywder ynghylch y costau gweinyddol ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â rhoi'r cynlluniau ar waith, yn enwedig o ran y trothwy incwm a enillir:

"Mae'r tapr, h.y. ymyl y dibyn, yn rhy fawr. Ond byddai gwneud unrhyw beth yn wahanol yn golygu llawer o ffurflenni, llawer o dudalennau, llawer o gwestiynau cymhleth ac mae hynny'n dueddol o olygu llawer o bethau'n mynd o'i le a byddin o staff i weinyddu a gwirio'r holl waith, a byddai'n siŵr o gostio cymaint â rhoi prydau ysgol am ddim i bawb ar y credyd cynhwysol. Noder: Nid oes unrhyw beth ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw gostau gweinyddu ar gyfer hyn"

"Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am y cymorth ariannol i ysgolion. Wrth i'r cymhwysedd gynyddu ar gyfer prydau ysgol am ddim, bydd angen i ysgolion ddarparu mwy o brydau ysgol am ddim. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw wybodaeth am gymorth ariannol, os oes unrhyw beth ar gael, i ysgolion sy'n debygol o brofi anawsterau oherwydd yr oediad yn system ariannu'r ysgol"

"...caiff y sefyllfa ariannu ei gwaethygu gan y prinder manylion yn y ddogfen ymgynghori o ran y cymorth ariannol fydd ar gael i awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, ar wahân i ystyried a fydd cymorth ariannol ar gael i ymdrin ag effaith y trothwy o £7,400 a'r cynnig o ddiogelwch pontio"

Lleisiodd yr ymatebwyr bryder hefyd ynghylch y gost gynyddol o roi unrhyw newidiadau ar waith ar gyfer prydau ysgol am ddim:

"Mae gennym bryderon ynghylch cost mwy o brydau bwyd. Er ei bod hi'n dda i ddisgyblion gael pryd ysgol poeth, bydd cost sylweddol yn gysylltiedig â hyn – nid yn unig y gost o ddarparu prydau bwyd ychwanegol, ond hefyd y posibilrwydd y bydd angen mwy o staff i reoli'r cynnydd yn nifer y prydau bwyd"

"Ni wyddym faint o blant ychwanegol fydd yn y categori hwn, oherwydd gallai rhai plant fod yn derbyn prydau ysgol eisoes. Bydd yn anodd i arlwywyr addysgol gynllunio ar gyfer hyn, ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o offer arlwyyo, newidiadau i'r diwrnod ysgol er mwyn cynnig mwy o sesiynau cinio ar gyfer y disgyblion ychwanegol, recriwtio mwy o staff. A fydd cyllid ar gael i hyn, oherwydd mae'n bosibl na fydd angen staff ac offer ychwanegol pan fydd y cyfnod pontio wedi dod i ben?"

Awgrymodd un ymatebydd y dylid dilyn esiampl Lloegr a gweithredu grant costau prydau lefel ysgol i helpu awdurdodau lleol gyda'r gost o roi'r newidiadau ar waith.

Nododd nifer fychan o ymatebwyr fod y cyllid cyfredol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ddigonol. Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ynghylch y ffordd orau o ariannu'r newidiadau, a sut i gadw a/neu ehangu'r hawl i brydau ysgol am ddim. Nododd rhai y dylai gwleidyddion, Prif Weithredwyr a bancwyr gael toriad yn eu cyflogau er mwyn ariannu'r newidiadau:

"Ewch ag arian oddi ar yr Aelodau Seneddol mwyaf blaenllaw a defnyddiwch yr arian hwnnw i dalu i bob plentyn gael prydau bwyd am ddim"

"Nid ydych wedi nodi o le fydddech yn cael arian fel arall i ad-dalu'r cynghorau am y galw uwch, felly beth am gyhoeddi incwm uchel llawer ohonynt, a gellid defnyddio % o hwn i gau'r bwlch. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi tynnu biliynau o arian pensiwn glowyr, felly beth am fynd ag arian o gronfeydd pensiwn Prif Weithredwyr a Bancwyr?"

Awgrymodd ymatebydd arall y dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar San Steffan am fwy o gyllid:

"Mae mor anodd gweld Llywodraeth Cymru (Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol) yn derbyn y toriadau a gyflwynir gan San Steffan yn ddi-gwestiwn. Pam? Mae cyni'n ddewis gwleidyddol a wnaed gan y Llywodraeth Doriaidd hon yn San Steffan. Lle mae'r herio? Pam ydych chi'n gwneud gwaith budr y Llywodraeth Doriaidd? Y Deyrnas Unedig yw'r chweched economi fwyaf yn y byd ac, eto i gyd, dyma chi'n crafu fel llygod mawr i wneud arbedion ariannol ar brydau ysgol am ddim. Am faint allwch chi barhau fel hyn? Meddyliwch am yr hyn yr ydych yn ei gynnig. Stopiwch a meddwl. Mae'n 2018 ac mae yna blant yng Nghymru sy'n newynog. Yn lle cyflwyno trothwy incwm, sy'n cyd-fynd ag agenda cyni'r Toriaid, mynnwch y cyllid ychwanegol gan San Steffan"

Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel mesur procsi ar gyfer amddifadedd

Roedd rhai ymatebwyr yn poeni ynghylch dilysrwydd parhaus y cymhwysedd i gael prydau bwyd am ddim fel dangosydd procsi ar gyfer amddifadedd, a'r cymorth dilynol a oedd yn cael ei ddyrannu i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

"Gwyddom fod Llywodraeth Cymru'n defnyddio darpariaeth prydau ysgol am ddim i asesu effaith tlodi ac amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Gyda'r mynediad ychwanegol i brydau ysgol am ddim, rydym yn poeni na fydd yr effaith ar blant sy'n byw mewn tlodi ac amddifadedd yn cael ei hasesu'n gywir ac na fydd darpariaethau priodol ar gyfer cymorth pellach yn cael eu darparu'n briodol. Mae angen rhoi mesurau diogelu ar waith i sicrhau nad yw'r rhai hynny o'r cefndiroedd tlotaf yn cael eu heffeithio'n annheg"

"Er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i bob disgybl, mae [yr ymatebydd] yn credu y dylai'r dull ariannu ar gyfer ysgolion adlewyrchu'r costau ychwanegol sy'n ymwneud ag amddifadedd disgyblion, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, lleoliad a safle'r ysgol a sicrhau bod addysg a gwasanaethau cymorth perthnasol o safon uchel yn cael eu darparu a'u cynnig i blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant sy'n agored i niwed.

"Mae darparu cyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim a defnyddio dangosyddion prydau ysgol am ddim fel procsi ar gyfer amddifadedd felly'n hanfodol i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn cael eu hystyried yn briodol o fewn y system. Rhaid i'r dulliau, felly, fod yn effeithlon, yn briodol ac yn gyfartal"

Gwnaeth eraill argymhell monitro'r cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer asesu atebolrwydd yr ysgol wrth fynd ymlaen. Nodwyd pwynt perthnasol o dan gwestiwn 2b.

"...gallai newidiadau i'r meini prawf a ddefnyddir i bennu cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim effeithio ar y graddau y tybir bod ysgolion yn gwasanaethu poblogaethau o ddisgyblion dan anfantais ac, o ganlyniad, yn dylanwadu ar sut y caiff effeithiolrwydd ysgol ei werthuso yng nghyd-destun fframwaith atebolrwydd cyfredol yr ysgol. O dan yr amgylchiadau hyn, gellid tybio bod ysgol yn gwasanaethu mwy neu lai o boblogaethau o ddisgyblion dan anfantais nad oedd yr achos cyn hyn, er nad oes unrhyw newid yn lefelau gwirioneddol yr amddifadedd a brofir gan y poblogaethau hyn"

Awgrymiadau ar gyfer gwella

Yn yr un modd â'r ymatebion i gwestiwn 1c a 2b, awgrymodd ymatebwyr y byddai cyflwyno model 'ever 6' i ddyrannu prydau ysgol am ddim yn gwella'r cynigion. Byddai hyn yn golygu fod plant sydd wedi derbyn prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf yn gallu manteisio ar y Grant Premiwm Disgyblion, a ddyrennir i ysgolion ac awdurdodau lleol.

Sylwadau ychwanegol

Cyflwynodd yr ymatebwyr amrywiaeth o sylwadau ychwanegol nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw un o'r themâu uchod. Roedd y rhain yn ymdrin â'r canlynol:

- **Newidiadau polisi ehangach sydd wedi creu mwy o dlodi:** Roedd y rhain yn cynnwys codi'r oedran dechrau ysgol gorfodol, a fyddai'n golygu na fyddai babanod mewn angen yn cael prydau ysgol am ddim bellach.

"Mae [yr awdurdod lleol] wedi codi'r oedran ysgol o dair blwydd a hanner oed i ychydig cyn pumed pen-blwydd plentyn. Felly, nid oes llawer o blant bach mewn lleoliad cyn-ysgol yn gallu cael prydau ysgol am ddim. Plant yn cyrraedd y lleoliad cyn-ysgol gyda bocsys bwyd llwm iawn, a staff yn gorfod mynd i'w pocedi eu hunain i ychwanegu byrbrydau trwm i'r bocs. Yn ogystal â dim mynediad i wasanaeth tacsï ysgol i gael addysg cyn-ysgol 3+ oed wedi'i hariannu"

- **Y gred nad oes angen prydau ysgol am ddim, a photensial y cynllun i gynyddu dibyniaeth ar fudd-daliadau**

"Dwi ddim yn credu y dylid darparu prydau ysgol am ddim"

"Mae pobl yn llwyddo i fwydo eu plant yn ystod gwyliau'r ysgol, felly pam fod pobl yn cael prydau ysgol am ddim"

"Collir cyfle i ofyn y cwestiwn hanfodol, sef pam ddylai'r prydau gael eu darparu yn yr ysgol ac nid yng nghartref y teulu. Mae'r polisi cyfredol yn cynnal diwylliant o ddibyniaeth ar y wlad"

- **Dyrannu mwy o amser a phwysigrwydd i amserau bwyd**

"Rhowch fwy o bwys ar amserau bwyd. Mae gan y mwyafrif o ysgolion nifer o sesiynau ac maen nhw'n rhuthro'r plant"

- **Pryder ynghylch natur cwestiynau'r ymgynghoriad a'r angen i sicrhau bod ei ganlyniadau'n cael eu hystyried**

"Hoffem hefyd amlygu Egwyddorion Ymgynghori 2018 ac, yn benodol, yr ail egwyddor yn y ddogfen hon, sy'n nodi y dylai fod gan ymgynghoriadau ddiben a dylai ymatebion i ymgynghoriad gael eu hystyried wrth fwrw ymlaen â pholisi...Rydym yn poeni nad yw'r ddogfen ymgynghori'n nodi unrhyw opsiynau na chostau eraill ac nid yw'n ceisio ateb unrhyw gwestiynau penodol – awgryma hyn fod penderfyniad eisoes wedi'i wneud i osod y trothwy ar y lefel hon, waeth beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad, am nad yw opsiynau eraill yn fforddiadwy"

- **Yr angen am dryloywder**

Nododd rhai ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu am gyfrifon y cynlluniau newydd a'u heffeithiau posibl ar blant. Galwasant ar Lywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth fanwl am hyn wrth fynd ymlaen.

"...ar gyfer penderfyniad o'r fath, mae angen: dangos y costau mewn modd tryloyw; nodi nifer a nodweddion y plant a effeithir yn glir; a thystiolaeth fod dadansoddiad wedi'i wneud o'r goblygiadau i unrhyw blant a effeithir gan y trefniadau hyn, gan gysylltu hyn â'u hawliau. Dylai hyn hefyd gynnwys nodi a dadansoddi unrhyw effeithiau gwahaniaethol yn rhinwedd darparu amrediad o drefniadau pontio"

- **Defnyddio'r cynlluniau fel cyfle i adolygu'r polisi ar brydau ysgol am ddim a materion perthnasol sy'n ymwneud â'r bwyd ysgol a ddarperir**

"Mae hwn yn gyfle delfrydol i Lywodraeth Cymru edrych ar bwnc prydau ysgol am ddim yn ei gyfanrwydd. Er mwyn sicrhau bod gennym ni'r model gorau wrth fynd ymlaen a fydd yn diwallu anghenion ein plant ar gyfer y dyfodol"

"Dylid ystyried yr adolygiad o brydau ysgol am ddim fel cyfle i adolygu'r bwyd a ddarperir mewn ysgolion a'r ansicrwydd bwyd a wynebir gan deuluoedd. Rydym yn cefnogi ffordd fwy cadarn o fesur ansicrwydd bwyd yng Nghymru, a fydd nid yn unig yn llywio polisi ar brydau ysgol am ddim, ond polisi ar ddarpariaeth brechwast a darpariaeth gwyliau hefyd"

- **Mwy o bwerau dirprwyedig i Gymru er mwyn cael mwy o ddylanwad ar benderfyniadau gwleidyddol**

"Datganoli llesiant i Gymru. Cymryd cyfrifoldeb"

Cwestiwn 4

Cwestiwn 4 – Hoffem wybod eich barn ar ba effaith y bydd diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol o ran y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Pa effeithiau ydych chi'n credu a ddaw yn sgil hyn? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cafwyd cyfanswm o 54 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Y thema a oedd yn codi'i phen dro ar ôl tro yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad oedd nad oedd ymatebwyr yn credu bod y cwestiwn hwn yn berthnasol. Credai 28% o'r ymatebwyr naill ai nad oedd prydau ysgol am ddim yn cyflwyno unrhyw oblygiadau uniongyrchol i'r Gymraeg neu nad oedd y Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Eglurodd rhai o'r ymatebwyr eu bod yn credu hyn oherwydd byddai dysgwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn cael eu heffeithio'r un fath pe byddent yn colli prydau ysgol am ddim. Roedd rhai sylwadau o ran hyn yn cynnwys y canlynol:

“Nid ydym yn credu y byddai'n effeithio ar y Gymraeg”

“Nid wyf yn gweld beth sydd a wnelo'r Gymraeg â phrydau ysgol am ddim”

“Ni fydd siarad Cymraeg neu Saesneg yn gwneud gwahaniaeth os ydych mewn tlodi a bod eich pryd bwyd wedi'i gymryd oddi amoch”

“Credwn fod hyn yn amherthnasol”

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r cynlluniau'n effeithio ar gyrhaeddiad addysgol, fel y nodwyd mewn rhan arall o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd ymatebwyr na fyddai dysgwyr newynog yn gallu canolbwyntio ar y Gymraeg nac yn ymgysylltu â hi, fel y nodir yn y sylwadau canlynol:

“Bydd lleihau nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cynyddu nifer y plant newynog. Ni fydd plant newynog yn gallu canolbwyntio ar fanteisio ar gyfleoedd i siarad Cymraeg”

“Os bydd plant newynog mewn ysgolion, ni fydd disgyblion yn gallu cymryd rhan na chanolbwyntio ar ddysgu'r iaith.”

“Bydd lleihau'r mynediad at brydau ysgol am ddim yn creu mwy o blant newynog, ac mae'n amlwg y bydd hyn yn effeithio ar ddysgu Cymraeg, yn yr un modd â phob pwnc arall i'r plant hyn”

Gwnaeth ymatebwyr eraill grybwyll goblygiadau ehangach y cynlluniau i gyrhaeddiad addysgol o dan gwestiynau eraill yr ymgynghoriad, a gwnaethant gyfeirio at y rhain

yn y cwestiwn hwn. Cafodd hyn ei ddehongli fel effaith anuniongyrchol ar y Gymraeg. Gwnaeth rhai ymatebwyr gyfeirio at waith ymchwil i roi mwy o sail i'w dadleuon.

"Ni fydd plant newynog...yn gallu dysgu na chanolbwyntio yn yr ysgol"

"Dangosodd yr adroddiad fod bwyta pryd[au] bwyd maethlon amser cinio...yn cynyddu'r canolbwyntio yn ystod y prynhawn"

"Mae yna blant sy'n byw mewn tlodi nad ydynt â'r hawl i gael pryd ysgol am ddim, ac mae goblygiadau maethol hyn yn cael effaith ehangach ar lefelau cyrhaeddiad i rai o'r plant hyn."

Thema arall amlwg oedd y byddai'r cynlluniau'n rhoi siaradwyr Cymraeg dan anfantais anghyfartal. Y prif bryderon a amlygwyd oedd lefelau'r tlodi mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg a chyflwyniad y Credyd Cynhwysol yng Nghymru.

"Mae lefelau sylweddol o amddifadedd a thlodi mewn rhai ardaloedd Cymraeg eu hiaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Gallai newidiadau i brydau ysgol am ddim, ochr yn ochr â chyflwyno'r Credyd Cynhwysol ledled Cymru, gael effaith niweidiol ar y teuluoedd a phlant hynny lle nad oes gwasanaethau Credyd Cynhwysol ar gael yn Gymraeg"

"Mae cyflwyniad y Credyd Cynhwysol wedi'i oedi yn yr ardaloedd hynny lle y mae'r mwyafrif o bobl yn siarad Cymraeg hyd ddiwedd yr amserlen gyflwyno... gallai teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd lle y siaradir Cymraeg yn bennaf fod dan anfantais, oherwydd mae'n bosibl na fydd ganddynt yr hawl o dan yr hen gynllun, felly ni fyddant yn gymwys i gael prydau am ddim drwy'r amddiffyniad a gynigir gan y cynllun newydd. Er nad yw'n gysylltiedig â'r iaith yn uniongyrchol...mae risg sylweddol mai'r teuluoedd a fydd yn colli allan fydd teuluoedd sy'n siarad Cymraeg ac, o ganlyniad, ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg"

Yn ogystal, roedd un cyfranogwr yn rhagweld y byddai'r cynlluniau'n rhoi pobl â nodweddion gwarchodedig, fel y'u nodwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dan anfantais.

"Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar blant â nodweddion gwarchodedig penodol, sydd eisoes mewn mwy o berygl o brofi tlodi"

Roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylid defnyddio prydau ysgol am ddim fel cyfle i hybu dwyieithrwydd a chydaddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru.

"Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yr un mor bwysig"

"Dylid defnyddio'r cyfle hwn i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; byddai'n caniatáu i'r plentyn ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfa fyw ac yn ei annog i [ddefnyddio] yr iaith"

Cwestiwn 5

Cwestiwn 5 - Eglurwch hefyd sut y gellid cynllunio neu newid y polisi arfaethedig ar gyfer diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau'r canlynol:

- i) Y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) Na fydd yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Derbyniwyd llai o lawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn (cyfanswm o 38) Ni wnaeth oddeutu tri o bob pum ymatebydd (61%) ymateb i'r cwestiwn. Yn yr un modd â chwestiwn 4, nid oedd un rhan o bump (19%) o'r ymatebwyr yn credu bod y Gymraeg yn berthnasol i'r ymgynghoriad nac yn gweld sut y byddai'r cymhwysedd ar gyfer cael prydau ysgol am ddim yn effeithio ar y rhai hynny sy'n siarad Cymraeg.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r cynlluniau'n effeithio ar y dysgu'n gyffredinol, gan adleisio'r pwyntiau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 4. Yn ogystal, mynegodd rhai ymatebwyr deimladau cryf ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf cymhwysedd a'r Gymraeg.

"Ni fydd prydau ysgol am ddim yn effeithio ar y naill iaith neu'r llall, ond bydd yn effeithio ar ddysgu"

"Dylai ymwneud â bwydo plentyn, ac nid ar a all siarad yr iaith neu beidio. Cyfle dyngarol ddylai hwn fod, nid cyfle gwleidyddol"

"Darparu mwy o brydau ysgol am ddim i lawer o blant o'r ddwy iaith, a chan eu bod yn siarad y ddwy iaith mewn ysgolion, ni ddylai'r naill iaith neu'r llall fod dan anfantais"

"Ni ddylai fod unrhyw gysylltiad...os darperir prydau ysgol am ddim, ni ddylent fod ynghlwm wrth unrhyw fath o gymhelliant sy'n ymwneud ag iaith"

Thema arall a oedd yn gorgyffwrdd â chwestiwn 4 oedd cred yr ymatebwyr y gellid defnyddio'r polisi i annog y defnydd o'r Gymraeg ac i hybu dwyieithrwydd ymhlith dysgwyr yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

"Mae'r Gymraeg eisoes yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn bywyd, felly byddai rhoi'r cyfle i blentyn weld yr iaith yn cael ei defnyddio yn ei annog i ddefnyddio'r iaith"

"Pe bai'r cynhyrchion a oedd yn cael eu prynu mewn deunydd pacio dwyieithog, gellid defnyddio'r Gymraeg yn amlach, ond nid ar draul y Saesneg."

Thema ailadroddus drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a atgyfnerthwyd mewn rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn, yw y byddai ehangu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, boed hwnnw i deuluoedd sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol neu'n gyffredinol, yn lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Gwnaeth rhai gyfeirio'n benodol at y Gymraeg yn yr ymatebion hyn, lle y siaradodd eraill yn fwy cyffredinol i bwysleisio pwyntiau a wnaed mewn manau eraill, a allai, eto, nodi effaith anuniongyrchol ar y Gymraeg.

"Mae'n anodd dod o hyd i ddull gweithredu a fyddai'n trin teuluoedd mewn ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn yr un modd â theuluoedd sydd eisoes mewn ardaloedd lle y mae'r Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno, oni bai bod yr amddiffyniad yn cael ei ehangu i gynnwys teuluoedd sy'n derbyn credydau treth gwaith na fyddai â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd"

"Mae'r effeithiau niweidiol wrth brofi cymhwysedd bob amser yn cymryd llawer o amser. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod y credyd cynhwysol ei hun yn cael effaith niweidiol. Rhowch brydau ysgol am ddim i bob plentyn a chael y rhai hynny sy'n ennill digon i dalu amdanynt"

"Cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae llawer ar y ffin yn awr"

Roedd sylw pellach yn ymwneud â chofrestru plant yn awtomatig ar gyfer prydau ysgol am ddim, fel y nodwyd rhywle arall. Roedd yr ymatebydd hwn o blaid hyrwyddo prydau ysgol am ddim mewn cymunedau lle mae mwy o lawer o bobl yn siarad Cymraeg er mwyn eu hatal rhag bod dan anfantais.

"Hoffai [yr ymatebydd] weld cofrestriad awtomatig ar gyfer prydau ysgol am ddim. Os nad yw'r cofrestru'n awtomatig, bydd yn hanfodol fod prydau ysgol am ddim yn cael eu hyrwyddo i siaradwyr Cymraeg, yn enwedig gan fod yna gymunedau â nifer helaeth o siaradwyr Cymraeg sydd â'u cyflogau ymhlith y rhai isaf yn y DU"

Roedd yr awgrym olaf o dan y cwestiwn hwn yn codi pwynt mwy cyffredinol a oedd yn berthnasol i'r polisi. Gwnaeth yr ymatebydd gynnig y dylid defnyddio cynhyrchion â labeli dwyieithog, fel y byddai mwy o arian yn cael ei fuddsoddi mewn busnesau yng Nghymru drwy gaffael.

"Pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr UE, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu nodi mai dim ond cynhyrchion â labeli dwyieithog fydd yn cael eu defnyddio drwy, er enghraifft, neilltuo Erthygl 34 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a'r Rheoliadau Caffael Cyfunol. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy o arian Llywodraeth Cymru'n mynd i fusnesau yng Nghymru"

Atodiad A – Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1(a) – Rydym yn cynnig trothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn i bennu cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim o dan y Credyd Cynhwysol. Dylem gael trothwy enillion net. A ydych chi'n?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 1(b) – Mae'r trothwy enillion net o £7,400 y flwyddyn yn briodol. A ydych chi'n?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 1(c) – Oes rhywbeth arall y dylem ni ei ystyried wrth osod y trothwy incwm a enillir, nad yw wedi'i drafod yn y ddogfen ymgynghori?

Cwestiwn 2(a) – Dylai disgyblion sy'n gymwys ar yr adeg y cyflwynir y trothwy ym mis Ionawr 2019, a hawlwr newydd islaw'r trothwy sy'n ennill prydau ysgol am ddim pan fydd y Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno, gael eu hawl i brydau ysgol am ddim wedi'i hamddiffyn. A ydych chi'n?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Cwestiwn 2(b) – Oes unrhyw beth arall y dylem ei ystyried o ran amddiffyn teuluoedd a effeithir gan y newid, nad yw wedi'i drafod yn y ddogfen ymgynghori?

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu y dylem ystyried rhywbeth arall, nad yw wedi'i drafod yn y ddogfen ymgynghori?

Cwestiwn 4 – Hoffem wybod eich barn ar ba effaith y bydd diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol o ran y canlynol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai ddod i'r golwg yn eich tyb chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 5 - Eglurwch hefyd sut y gellid cynllunio neu newid y polisi arfaethedig ar gyfer diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim er mwyn sicrhau'r canlynol:

- i) Y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) Na fydd yn cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 6 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y gwagle hwn i'w nodi.